Arolygiaeth Prawf EF

# Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa – ar ôl rhyddhau

Arolygiad thematig gan Arolygiaeth Prawf EF

Mawrth 2023

**Diolchiadau**

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EF Tony Kirk, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a staff gweithrediadau, ymchwil, cyfathrebu a chorfforaethol. Helen Davies yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am y rhaglen arolygu hon. Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw ffordd yn yr arolygiad hwn. Heb eu cymorth a'u cydweithrediad, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosib. Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw.

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

ISBN: 978-1-915468-20-8

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

**Cyhoeddwyd gan:**

Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi
Llawr 1af Canolfan Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter @hmiprobation

# Cynnwys


**Cynnwys** .......... 3
**Rhagair** .......... 4
**Ffeithiau am y Cyd-destun** .......... 5
**Crynodeb gweithredol** .......... 6
**Argymhellion** .......... 9
**1. Cyflwyniad** .......... 10
1.1. Cefndir .......... 10
1.2. Nodau ac amcanion .......... 11
1.3. Amlinelliad o'r adroddiad .......... 12
**2. Arweinyddiaeth a staffio** .......... 13
2.1. Arwain .......... 13
2.2. Staffio .......... 14
2.3. Casgliadau a goblygiadau .......... 15
**3. Gwasanaethau** .......... 16
3.1. Anghenion ailsefydlu .......... 16
3.2. Perthynas â darparwyr gwasanaethau .......... 16
3.3. Darparu gwasanaethau .......... 18
3.4. Casgliadau a goblygiadau .......... 21
**4. Pobl ar brawf** .......... 22
4.1. Crynodeb o'r canfyddiadau .......... 22
4.2. Casgliadau a goblygiadau .......... 26
**5. Canlyniadau cychwynnol** .......... 27
5.1. Ymataliad .......... 27
5.2. Cadw pobl eraill yn ddiogel .......... 28
5.3. Ailsefydlu .......... 29
5.4. Casgliadau a goblygiadau .......... 31
**Cyfeiriadau** .......... 33
**Atodiad 1: Geirfa** .......... 34
**Atodiad 2: Methodoleg** .......... 36
**Atodiad 3: Tablau data** .......... 38

## Rhagair

Rhoddwyd y model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC) ar waith ym mis Ebrill 2018 er mwyn cydlynu taith carcharor drwy'r ddalfa ac i'r gymuned. Yn ein harolygiad thematig ar y cyd *Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa – cyn rhyddhau*, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022, gwnaethom archwilio 100 achos mewn wyth gwahanol garchar. Gwelsom nad oedd y model yn gweithio yn ôl y bwriad ac argymhellwyd adolygiad sylfaenol o'r arferion cyfredol. Yn yr arolygiad dilynol hwn rydym wedi olrhain yr un carcharorion i'r gymuned, am hyd at naw mis ar ôl eu rhyddhau, i weld i ba raddau mae nodau ailsefydlu ac adsefydlu'r model yn cael eu cyflawni.

Roedd ein canfyddiadau yn siomedig. Dim ond pedwar o bob 10 carcharor yn ein sampl achosion aeth i lety sefydlog ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa, a dim ond wyth y cant o'r rheini a oedd ar gael i weithio a gafodd swydd. Roedd y cyfraddau galw yn ôl yn uchel, gyda 30 y cant ar gyfartaledd yn cael eu hanfon yn ôl i'r ddalfa – pedwar o bob 10 o fewn 28 diwrnod. Mewn rhai rhanbarthau prawf roedd bron i hanner yn cael eu galw'n ôl i'r carchar.

Nid yw'r gwaith i leihau'r risgiau i bobl eraill ar ôl rhyddhau carcharorion yn cyrraedd ein disgwyliadau. Cwblhawyd archwiliadau cam-drin domestig mewn ychydig o dan hanner yr achosion lle'r oedd eu hangen; a dim ond mewn chwech o bob 10 achos y cwblhawyd archwiliadau diogelu plant lle'r oedd eu hangen. Mewn sawl achos roedd oedi o ran cael gwybodaeth gan yr heddlu a gwasanaethau plant. Roedd diffyg chwilfrydedd proffesiynol ymysg rhai ymarferwyr i ddeall amgylchiadau personol y sawl sy'n gadael carchar a gyda phwy roedd mewn cysylltiad â nhw.

Mae'r gwasanaeth prawf yn wynebu sawl her, gan gynnwys prinder staff sylweddol. Ar gyfartaledd, mae gan ranbarthau prawf 30 y cant yn llai o ymarferwyr nag sydd eu hangen i ymgymryd â gwaith ailsefydlu gyda phobl sy'n gadael carchar. Mae'r sefyllfa yn fwy anodd oherwydd prinder swyddogion a staff gweinyddol y gwasanaeth prawf. O ganlyniad, nid oes digon o gapasiti i feithrin perthynas â charcharorion cyn eu rhyddhau, nac i gwblhau atgyfeiriadau am gymorth tai mewn da bryd.

Mae rhai prosesau atgyfeirio yn hir ac yn golygu bod yn rhaid i ymarferwyr gyflwyno'r un wybodaeth dro ar ôl tro. Er enghraifft, mae atgyfeiriadau i adeiladau cymeradwy a gwasanaethau llety cymunedol yn cymryd amser i'w cwblhau, ac nid ydynt o reidrwydd yn arwain at ganlyniad llwyddiannus. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar yr amser sydd ar gael i ymarferwyr dan bwysau ymgysylltu â phobl sydd ar brawf, ac mae hynny, fel y canfu ein hymgynghorwyr profiad bywyd, yn allweddol i ailsefydlu'n llwyddiannus.

Mae argaeledd gwasanaethau llety cymunedol newydd (CAS3) yn rhywbeth cadarnhaol. Yn y pum rhanbarth prawf lle mae CAS3 ar gael yn llawn, mae'r bobl sy'n gadael carchar yn cael eu rhoi mewn llety â chymorth dros dro am 84 noson yn syth ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar neu ar ôl bod mewn adeilad cymeradwy i ddechrau. Mae hyn yn lleihau digartrefedd yn sylweddol ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa neu o adeilad cymeradwy yn y rhanbarthau lle mae'n weithredol. Mae dod o hyd i rywle i fyw ar ôl hynny'n dal i fod yn heriol.

Peidio â chydymffurfio ag amodau trwydded oedd y rheswm pam fod y rhan fwyaf yn cael eu galw yn ôl i'r carchar, a hynny o ganlyniad i ddigartrefedd, ailddechrau camddefnyddio sylweddau, a diffyg parhad gofal rhwng y gwasanaethau a ddarperir cyn ac ar ôl rhyddhau. Yng ngoleuni ein canfyddiadau, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion, gan gynnwys gwella lefelau cadw staff a sicrhau parhad gofal i garcharorion cyn ac ar ôl eu rhyddhau, a fydd, o'u dilyn, yn gwella'r cymorth ailsefydlu ac yn helpu i leihau'r nifer uchel o bobl sy'n gadael carchar sy'n cael eu hanfon yn ôl i'r carchar.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EF
Mawrth 2023

## Ffeithiau am y Cyd-destun

Ystadegau rheoli troseddwyr[1]

| | |
|---|---|
| **81,309** | Carcharorion yng Nghymru a Lloegr ar 30 Medi 2022. Mae hyn yn cynrychioli **cynnydd** o dri y cant o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. |
| **5, 726** | Galw'n ôl dan drwydded rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022. Mae hyn yn gynnydd o saith y cant ar yr un chwarter yn 2021. |

Dangosfwrdd OMiC[2]

| | |
|---|---|
| **243,127** | Troseddwyr ar brawf ddiwedd mis Mehefin 2022. Cynyddodd y nifer hwn bump y cant o'i gymharu â nifer y troseddwyr dan oruchwyliaeth ddiwedd mis Mehefin 2021. |
| **8,137** | Carcharorion a drosglwyddwyd o reolwyr troseddwyr yn y carchar (POM) i reolwyr troseddwyr cymunedol (COM) rhwng mis Awst 2021 a mis Mai 2022.[2] |

Gweithlu'r Gwasanaeth Prawf[3]

| | |
|---|---|
| **4,371** | Swyddogion prawf cyfwerth ag amser llawn band 4 mewn swydd o 30 Medi 2022. Mae'r nifer hwn wedi gostwng 170 o swyddogion prawf cyfwerth ag amser llawn (3.8 y cant) ers 30 Mehefin 2022. |
| **6,374** | Swyddogion gwasanaeth prawf cyfwerth ag amser llawn band 3: cynnydd o 563 swyddog cyfwerth ag amser llawn (9.7 y cant) ers 30 Mehefin 2022. Bydd cyfran o'r swyddogion gwasanaeth prawf mewn swydd yn gweithio tuag at y cymhwyster swyddog prawf proffesiynol. |
| **1,309** | Uwch swyddogion prawf cyfwerth ag amser llawn band 5, cynnydd o 49 (3.9 y cant) ers y chwarter diwethaf. |
| **1,846** | Prinder swyddogion prawf cyfwerth ag amser llawn mewn swyddi o'i gymharu â'r lefel staffio angenrheidiol o 6,160 (30 y cant). |
| **7.5 y cant** | Cyfradd ymddiswyddo ar gyfer y Gwasanaeth Prawf yn ystod flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2022. Cynnydd bach ydy hyn, o 0.5 pwynt canran, o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. |

[1] *Offender Management Statistics Quarterly: April to June 2022.* GOV.UK (www.gov.uk)
[2] Dangosfwrdd OMiC, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, heb ei gyhoeddi – Mehefin 2022.
[3] *HM Prison and Probation Workforce Quarterly: September 2022.* GOV.UK (www.gov.uk)

# Crynodeb gweithredol

## Cyflwyniad

Gweledigaeth model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yw y 'dylai pawb yn y carchar gael cyfle i drawsnewid eu bywydau drwy ddefnyddio eu hamser yn y ddalfa yn adeiladol i leihau eu risg o niwed ac aildroseddu; i gynllunio sut maen nhw am ailsefydlu; ac i wella eu rhagolygon o ran bod yn aelod diogel a gwerthfawr o gymdeithas sy'n parchu'r gyfraith'. Roedd ein harolygiad thematig ar y cyd o OMiC cyn rhyddhau wedi darganfod nad oedd yn gweithio yn ôl y bwriad.

Roedd ail ran yr arolygiad thematig hwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau i garcharorion ar ôl eu rhyddhau. Rhoddodd yr arolygwyr ystyriaeth i'r ffyrdd mae ymarferwyr yn asesu, yn cynllunio ac yn adolygu'r gwaith sydd ei angen er mwyn helpu i sicrhau bod y rhai sy'n gadael carchar yn ailsefydlu'n llwyddiannus. Roeddem hefyd wedi ystyried y graddau y cafodd y canlyniadau allweddol eu cyflawni pan oedd unigolyn yn cael ei ryddhau o'r carchar, gan gynnwys a gafodd lety sefydlog ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

## Methodoleg

Cwblhawyd ein gwaith maes ar ôl rhyddhau mewn saith rhanbarth gwasanaeth prawf ledled Cymru a Lloegr. O'r 100 achos a arolygwyd yn y ddalfa, archwiliwyd 96 ohonynt yn fanwl am hyd at naw mis ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa. Roedd yr ystod yn amrywio o ddau fis (pedwar achos) i naw mis (un achos) ar ôl rhyddhau, gyda'r rhan fwyaf o achosion (77) yn amrywio rhwng tri a phum mis. Cafodd pedwar achos eu heithrio o'r sampl cymunedol gan nad oeddent wedi cael eu rhyddhau o'r carchar. Roedd ymgynghorwyr profiad bywyd o'r sefydliad Doing What Really Matters (DWRM) wedi cyfweld 53 unigolyn o'n sampl. Roedd hyn yn cynnwys pedwar a oedd wedi cael eu galw yn ôl i'r carchar ar ôl eu rhyddhau.

Yn ychwanegol at ein sampl ym mhob rhanbarth prawf, gwnaethom ystyried tystiolaeth ynghylch lefelau staffio a llwythi achosion; y gwasanaethau a'r ymyriadau sydd ar gael yn y gymuned; nodweddion y llwythi achosion; dogfennau strategol; a chynlluniau cyflawni.

Cynhaliwyd cyfarfodydd a grwpiau ffocws ym mhob rhanbarth prawf, gan gynnwys gydag uwch arweinwyr prawf, darparwyr gwasanaethau a rheolwyr troseddwyr cymunedol. Gwnaethom orffen gydag wythnos o gyfarfodydd gydag uwch arweinwyr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF sy'n gyfrifol am reoli dedfrydau ar ôl rhyddhau.

Mae dadansoddiad manwl o'n methodoleg ar gael yn Atodiad 2.

## Arweinyddiaeth a staffio

Mae trefniadau llywodraethu OMiC ar waith ar lefel ranbarthol a lleol, drwy fforymau arwain uwch a byrddau gweithredu lleol, sy'n dod ag arweinwyr prawf a charchardai at ei gilydd. Mae trefniadau o'r fath yn canolbwyntio'n bennaf ar waith cyn rhyddhau, ond weithiau dydy'r cyfrifoldebau ddim yn glir, yn enwedig pan fydd carchardai'n adnodd cenedlaethol a charcharorion yn cael eu rhyddhau i wahanol ranbarthau prawf.

Fel yn rhan gyntaf yr arolygiad, gwelsom fod arweinwyr prawf wedi ymrwymo i sicrhau bod OMiC yn gweithio. Roedd rhai uwch dimau arwain yn ystyried mabwysiadu dull mwy hyblyg er mwyn sicrhau llwyddiant gyda nifer cyfyngedig o staff. Er enghraifft, roedd rhanbarth Llundain yn ystyried ailffocysu rôl y rheolwr troseddwyr yn y carchar fel bod y rheolwyr hynny'n cwblhau gwaith cyn rhyddhau mewn rhanbarthau lle'r oedd prinder sylweddol o reolwyr troseddwyr cymunedol.

Ni roddwyd digon o sylw i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ym mhoblogaeth prawf a charchardai OMiC. Mae unigolion ag anabledd ac unigolion o gefndiroedd du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol wedi'u gorgynrychioli ymysg carcharorion wedi'u dedfrydu. Er bod arweinwyr prawf yn cydnabod bod hyn yn adlewyrchu tueddiadau ehangach yn y system cyfiawnder troseddol (h.y. y

dedfrydau a roddir gan y llysoedd), ychydig o dystiolaeth a welsom eu bod wedi ceisio canfod a mynd i'r afael â'r anghymesuredd hwn.

Mae prinder staff sylweddol mewn rhanbarthau prawf, ac mae hyn yn arwain at lwythi gwaith trwm i lawer o ymarferwyr prawf. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd y gwaith, gyda llawer o ymarferwyr yn methu ag ymgymryd â gwaith strwythuredig sy'n canolbwyntio ar y troseddu gyda'r bobl sy'n gadael carchar. Mae prinder staff yn gyffredin, gan gynnwys ar lefel swyddogion a gweinyddwyr gwasanaeth prawf. Mae'r prinder cyfredol yn cael ei waethygu ymhellach gan anawsterau o ran cadw staff.

Mae effaith y prinder hwn yn cynnwys gorfod ailddyrannu achosion pan fydd ymarferwyr yn cael eu dyrchafu i lefel uwch swyddog prawf, ac atgyfeiriadau tai yn cael eu gohirio oherwydd nad oes digon o staff i fwrw ymlaen â'r gwaith. Gwelsom hefyd fod prosesau atgyfeirio hir, fel ar gyfer adeiladau cymeradwy neu wasanaethau llety cymunedol haen 3 (CAS3), yn lleihau'r amser sydd ar gael i ymarferwyr ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl sydd ar brawf.

## Gwasanaethau

Mae dadansoddiad o anghenion yn cael ei gynnal ar lefel ranbarthol i lywio'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y bobl sydd ar brawf. Gwelsom fod anghysondeb rhwng y gwasanaethau sydd eu hangen a'r rhai sy'n cael eu darparu. Er enghraifft, roedd gormod o geisiadau am wasanaethau llety, a oedd yn arwain at restrau aros hir, ac nid oedd digon o geisiadau am wasanaethau eraill, fel lles personol.

Roedd llawer o ymarferwyr yn teimlo bod y prosesau atgyfeirio'n gymhleth. Roedd anawsterau deall y prosesau digidol sydd newydd gael eu sefydlu, fel 'atgyfeirio a monitro'. Roedd ymarferwyr a darparwyr gwasanaeth yn aml yn gwneud gwahanol asesiadau o ran lefel cymhlethdod anghenion y sawl sydd ar brawf a'r canlyniadau sy'n ofynnol yn sgil ymyrraeth y gwasanaeth.

Mae CAS3 yn cael ei gyflwyno'n raddol yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae wedi gweithio'n dda yn y pum rhanbarth prawf lle mae wedi bod yn weithredol ers mis Gorffennaf 2021. Roedd y rheini yn ein sampl achosion naill ai wedi cael gafael arno yn syth o'r carchar neu fel llety camu ymlaen ar ôl bod mewn adeilad cymeradwy. Roedd ychydig o dan un o bob 10 o'n sampl achosion yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar, ac roedd y rheiny'n bennaf mewn rhanbarthau prawf lle nad oedd llety CAS3 ar gael.

Dim ond mewn un o bob tri achos y darparwyd gwasanaethau i fynd i'r afael ag agweddau tuag at droseddu, teulu a pherthnasoedd, a chamddefnyddio cyffuriau. Yn yr un modd, nid oedd digon o wasanaethau'n cael eu darparu i gadw pobl eraill yn ddiogel. Dim ond mewn un o bob pum achos y darparwyd gwasanaethau i fynd i'r afael â risgiau cam-drin domestig i eraill, teulu a pherthnasoedd, agweddau tuag at droseddu a chamddefnyddio cyffuriau.

Ar ôl uno'r Gwasanaeth Prawf nid oes gan ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir i'r gwasanaeth prawf fynediad uniongyrchol at nDelius, sef system cofnodi'r gwasanaeth prawf. Mae hyn yn golygu nad yw ymarferwyr bob amser yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith sy'n cael ei gwblhau gan ddarparwyr, ac nad oes gan ddarparwyr fynediad uniongyrchol at newidiadau i wybodaeth sy'n ymwneud â statws risg neu ddiogelu.

Roedd y gwasanaethau'n gweithio'n dda pan oeddent wedi'u cydleoli yn y swyddfeydd prawf. Roedd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i ymarferwyr o'r gwasanaethau sydd ar gael a'r gwahanol lefelau o angen y gellid eu bodloni drwyddynt. Roedd hefyd yn galluogi ymarferwyr i ddarparu gwybodaeth fwy cywir ar gyfer atgyfeiriadau. Roedd y broses atgyfeirio'n gweithio orau pan oedd yn cael ei chwblhau drwy gyfarfodydd tair ffordd rhwng yr ymarferydd, y darparwr a'r sawl sydd ar brawf.

Mae adeilad cymeradwy yn opsiwn ar gyfer y gyfran fach o bobl sy'n gadael carchar sydd angen y lefelau uchaf o leoliadau amddiffyn y cyhoedd yn y gymuned ar ôl eu rhyddhau. Roedd y staff yno'n darparu cymorth ailsefydlu da i'r bobl sy'n gadael carchar. Fodd bynnag, roedd lle i ymarferwyr a staff adeilad cymeradwy weithio'n agosach fel tîm i sicrhau y gellid cwblhau atgyfeiriadau tai camu ymlaen yn fwy prydlon.

## Pobl ar brawf

Roedd ein hymgynghorwyr profiad bywyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y berthynas rhwng yr ymarferydd a'r sawl sydd ar brawf. Roedd y bobl ar brawf yn teimlo bod y sesiynau cyflwyno'r gwasanaeth prawf ar ôl cael eu rhyddhau ar drwydded yn 'unffordd' ei natur. Yn yr un modd â gwaith cyn rhyddhau, roeddent yn teimlo bod y broses o reoli dedfrydau yn cael ei 'wneud iddyn nhw' yn hytrach na chael ei 'wneud gyda nhw'. Yn rhy aml, nid oedd ymarferwyr wedi llwyddo i feithrin perthynas waith dda gyda'r sawl ar brawf cyn gorfod rhannu newyddion annymunol am gyfyngiadau oedd bellach yn angenrheidiol mewn perthynas â'r drwydded. Yn aml nid oedd y rhesymau dros y cyfyngiadau hyn yn cael eu hegluro'n iawn i'r sawl ar brawf, neu nid oedd yn eu deall.

Pan oedd y bobl ar brawf yn teimlo bod eu Rheolwr Troseddwyr Cymunedol wedi ymgysylltu â nhw, ac wedi'u deall, gallent fod yn fwy agored yn ystod sesiynau goruchwyliaeth y drwydded. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, roedd newidiadau aml i ddeiliaid y swyddi Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol yn eu rhwystro rhag meithrin perthnasoedd llawn ymddiriedaeth. Byddai ymdeimlad cliriach o fod mewn contract, gyda chyfrifoldebau tryloyw wedi'u rhoi i'r naill ochr a'r llall, yn rhoi ymdeimlad cliriach o lawer i'r sawl ar brawf o weithio gyda'r gwasanaeth prawf i symud ymlaen tuag at fywyd heb droseddu yn y gymuned.

## Canlyniadau

Yn gyffredinol, roedd yr arolygwyr wedi gweld lefelau da o ymgysylltu â phobl ar brawf. Roedd llawer o Reolwyr Troseddwyr Cymunedol yn mabwysiadu dull cefnogol, wedi'i atgyfnerthu gan gyswllt rheolaidd, fel arfer bob wythnos. Roeddent yn cymryd camau gorfodi priodol pan nad oedd amodau'r drwydded yn cael eu dilyn. Mae enghreifftiau o hynny'n cynnwys danfon llythyrau rhybuddio gan reolwyr, ac roedd y rhain yn aml yn gweithio'n dda i ail-ymgysylltu â'r sawl sydd ar brawf a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i drwydded.

Ni wnaed digon o welliannau i'r ffactorau sy'n ymwneud fwyaf ag aildroseddu. Dim ond mewn un o bob pedwar achos y gwnaed cynnydd digonol o ran teulu a pherthnasoedd, ffordd o fyw a chymdeithion, agweddau tuag at droseddu a chamddefnyddio sylweddau. Dim ond mewn hanner yr achosion y gwnaed gwelliannau i'r ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â rheoli'r risg o niwed i bobl eraill.

Fel y gwelsom yn ein harolygiad cyn rhyddhau, roedd diffyg sylweddol yn yr wybodaeth a geir gan asiantaethau eraill, fel gwybodaeth gan yr heddlu, ac mewn archwiliadau cam-drin domestig a diogelu plant, er mwyn cadw pobl eraill yn ddiogel. Roedd ymarferwyr yn cael trafferth cael ymateb i'w ceisiadau am yr wybodaeth hon, ac mewn rhai achosion roeddent wedi rhoi'r gorau i ofyn. Roedd diffyg chwilfrydedd proffesiynol ymysg rhai ymarferwyr i ddeall yn llawn amgylchiadau personol y sawl sydd ar brawf. Roedd hyn yn golygu nad oeddent bob amser yn gwybod pwy oedd mewn perygl o niwed. Roedd yr arolygwyr wedi dod ar draws rhai achosion lle'r oedd yr ymarferydd wedi tanamcangyfrif lefel y risg neu wedi'i gostwng yn rhy gyflym ar ôl i'r unigolyn ar brawf gael ei ryddhau o'r ddalfa.

Roedd y cyfraddau galw yn ôl yn uchel, gyda 30 y cant o'r sampl achosion yn cael eu galw yn ôl i'r ddalfa o fewn naw mis o gael eu rhyddhau. Y prif resymau dros gael eu galw yn ôl oedd diffyg cydymffurfio ag amodau trwydded, ac roedd hyn yn deillio'n bennaf o ddigartrefedd a/neu ailddechrau camddefnyddio sylweddau. Roedd diffyg parhad gofal cyn ac ar ôl eu rhyddhau a oedd yn golygu nad oedd y bobl sy'n gadael carchar yn gallu cael gafael ar y lefelau priodol o gymorth i allu ailsefydlu.

Dim ond pedwar o bob 10 o bobl sy'n gadael carchar yn ein sampl achosion aeth i lety sefydlog ar ôl cael eu rhyddhau, a dim ond wyth y cant gafodd swydd amser llawn. Gwelwyd rhywfaint o welliant yn ystod y misoedd cyntaf ar drwydded, er, ar adeg yr arolygiad, roedd pedwar o bob 10 a oedd yn gadael carchar mewn llety dros dro, a phedwar o bob 10 yn ddi-waith.

# Argymhellion

Roedd ein hadroddiad ar y cyd o fis Tachwedd 2022, sef *Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa – cyn rhyddhau* yn cynnwys 16 o argymhellion. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wedi cyhoeddi cynllun gweithredu mewn ymateb.[4] Gwneir yr argymhellion isod yn ychwanegol at ein hargymhellion blaenorol i gryfhau'r gwaith a wneir ar ôl rhyddhau troseddwyr o'r ddalfa.

**Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wneud y canlynol:**

1. yn unol ag arferion sefydledig mewn sectorau eraill, cyflwyno rôl uwch-ymarferydd, i wella lefelau cadw staff, sicrhau parhad o ran rheoli achosion a goruchwyliaeth gan reolwyr
2. lleihau'r dyblygu mewn prosesau atgyfeirio, er enghraifft i adeiladau cymeradwy a CAS3, er mwyn lleihau oedi a chynyddu'r amser sydd ar gael i ymarferwyr ymgysylltu â phobl ar brawf
3. sicrhau bod pob un sy'n gadael y ddalfa ac angen triniaeth barhaus ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn ei derbyn, a bod parhad gofal, er mwyn atal llithro'n ôl
4. adolygu'r gwasanaethau a gynigir gan ddarparwyr gwasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu i sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau ar gyfer nifer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu gwneud ym mhob rhanbarth prawf
5. caniatáu mynediad uniongyrchol at gofnodion y gwasanaeth prawf i ddarparwyr gwasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu fel eu bod yn ymwybodol o'r ystyriaethau perthnasol ar gyfer diogelu'r cyhoedd
6. sicrhau bod anghenion llety carcharorion yn cael sylw cyn iddynt gael eu rhyddhau, a bod y cymorth i sicrhau llety sefydlog yn parhau ar ôl hynny.

**Dylai cyfarwyddwyr prawf rhanbarthol wneud y canlynol:**

7. gweithio gyda phartneriaid lleol i sicrhau bod gwybodaeth am gam-drin domestig a diogelu yn cael ei rhannu'n brydlon, yn ystod y cyfnod cyn rhyddhau ac ar ôl rhyddhau
8. cymryd camau i wella ansawdd y gwaith a wneir adeg eu rhyddhau o'r ddalfa i gadw pobl eraill yn ddiogel
9. sicrhau bod ymarferwyr prawf yn cael cefnogaeth gan weinyddwyr a swyddogion y gwasanaeth prawf e.e. mewn strwythur Cyflawni Gweithredol Prawf integredig, i'w galluogi i wneud gwaith ailsefydlu o ansawdd uchel
10. darparu canllawiau i sicrhau bod staff yn deall sut mae gwneud atgyfeiriadau gwybodus a phriodol at ddarparwyr gwasanaethau.

[4] *Action plan in response to the joint thematic inspection of Offender Management in Custody.* Tachwedd 2022. GOV.UK (www.gov.uk)

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Cefndir

Mae anghenion ailsefydlu sylfaenol wrth adael y carchar neu wrth symud ymlaen o adeilad cymeradwy yn cynnwys rhywle i fyw, ffordd o gefnogi eich hun drwy waith cyflogedig, a mynediad at fudd-daliadau.

Mae chwe egwyddor yr arferion ailsefydlu effeithiol wedi'u hamlinellu yn ein papur mewnwelediadau academaidd diweddar (Cracknell, 2023). Mae'r rhain yn amlygu thema gyffredin: mae unigolion sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa angen ymarferwyr sydd:

- yn gallu dangos ymrwymiad a gofal go iawn
- yn meddu ar wybodaeth a mynediad at rwydwaith 'helaeth' o adnoddau cymunedol (Dominey, 2019)
- yn meddu ar y sgiliau a'r hyder i gydbwyso'r gwaith o fonitro a rheoli risg â chymorth adsefydlu ac ailintegreiddio go iawn.

Datblygodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi ddull ailsefydlu o dan y model gweithredu targed newydd.[5] Sefydlodd y model gysylltiad rhwng OMiC, ailsefydlu a Gwella'r Gwasanaethau drwy'r Giât (ETTG) blaenorol. Trosglwyddwyd y rhan fwyaf o gyn staff Gwella'r Gwasanaethau drwy'r Giât i ranbarthau'r gwasanaeth prawf er mwyn helpu â'r gwaith o reoli troseddwyr yn y gymuned.

Nod y model gweithredu targed yw sicrhau gwasanaeth ailsefydlu sy'n dechrau yn y carchar ac sy'n parhau yn y gymuned (Drwy'r Giât), drwy ddarparu gwasanaethau estyn i mewn a pharatoi ar gyfer rhyddhad sy'n cynnig parhad i unigolion. Mae'r model ailsefydlu newydd yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r model OMiC. O dan OMiC, ar gyfer carcharorion a ddedfrydwyd am gyfnod penodol gyda mwy na 10 mis ar ôl yn y ddalfa ar adeg y ddedfryd, ar hyn o bryd mae'r cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo naill ai saith mis a hanner cyn rhyddhau ar gyfer hen achosion y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu 12 wythnos cyn rhyddhau ar gyfer hen achosion y Cwmni Adsefydlu Cymunedol.

Wrth drosglwyddo i'r gymuned, dylai'r Rheolwr Troseddwyr Cymunedol gwblhau asesiad risg ac anghenion cyn eu rhyddhau. Y bwriad yw adeiladu ar y gwaith a'r cynlluniau a gwblhawyd yn y carchar, ac ymgorffori'r gwaith hwnnw. Mae'n ofynnol i'r Rheolwr Troseddwyr Cymunedol gael o leiaf dri chyswllt gyda charcharor cyn rhyddhau, er mwyn helpu i feithrin perthynas dda â'r carcharor. Mae hyn yn cynnwys y cyfarfod trosglwyddo OMiC ac o leiaf ddau gyfarfod ychwanegol, yn unol â gofynion y Model Gweithredu Prawf.

Mae Strategaeth Fusnes Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi[6] yn ymrwymo i weithio ar draws y Gwasanaeth hwnnw, ac mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu a chyrff ac asiantaethau allweddol eraill (gan gynnwys y GIG) er mwyn darparu'r ymyriadau cywir ac ategu gwell integreiddio mewn cymunedau ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â'r gwasanaethau prawf.

Mae'r rhan fwyaf o ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu yn cael eu darparu gan wasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu. Cyfarwyddwyr prawf rhanbarthol sy'n gyfrifol am nodi'r anghenion allweddol sy'n gysylltiedig â throseddu yn eu rhanbarthau a chomisiynu gwasanaethau penodol i ddiwallu'r anghenion hynny.

---

[5] Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. (Chwefror 2021). Y Model Gweithredu Targed ar gyfer Gwasanaethau Prawf yng Nghymru a Lloegr, Rhaglen Diwygio'r Gwasanaeth Prawf, assets.publishingservice.gov.uk.

[6] Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. (Chwefror 2020). *HMPPS Business Strategy: Shaping Our Future*. https://www.gov.uk/government/publications/hmpps-business-strategy-shaping-our-future.

Mae categorïau gwasanaethau yn cynnwys: llety, i atal digartrefedd; addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, i gael gwared ar rwystrau i gyflogaeth; cyllid, budd-daliadau a dyledion, i gefnogi mynediad at incwm cyfreithlon; dibyniaeth ac adferiad, i ddarparu mynediad at gymorth sy'n arbenigo mewn camddefnyddio sylweddau; llesiant personol, i gefnogi'r broses o drosglwyddo'n llwyddiannus o'r ddalfa i'r gymuned; a gwasanaethau i fenywod, i ddarparu gwasanaethau wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion penodol carcharorion wedi'u dedfrydu.

Y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd cyn ac ar ôl rhyddhau yw llety, cynhwysiant cymdeithasol a gwasanaethau i fenywod. Dim ond yn y gymuned y mae gwasanaethau allweddol eraill, fel addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a dibyniaeth ac adferiad, ar gael. Y bwriad yw y bydd pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar yn cael gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd. Mae hyn yn golygu, lle bo modd, bod gwasanaethau'n cael eu darparu lle mae'r sawl sydd ar brawf yn byw yn y gymuned, gyda rhywfaint o hyblygrwydd fel bod gwasanaethau'n gallu cael eu darparu yn ystod y broses cyn rhyddhau neu o giât y carchar.

Mae bylchau yn y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac adferiad, oherwydd yr angen i gysylltu gofal iechyd y carchar cyn rhyddhau a thriniaeth camddefnyddio sylweddau ar gyfer y sawl sy'n gadael carchar adeg ei ryddhau i'r gymuned. Gall pobl sy'n gadael carchar gael triniaeth drwy'r GIG a darparwyr arbenigol sy'n gweithio gyda rhanbarthau prawf, er nad yw'r cymorth hwn bob amser ar gael yn syth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Yn yr un modd, mae bylchau yn y ddarpariaeth i gefnogi'r bobl sy'n gadael carchar gydag anawsterau iechyd meddwl. Mae gwasanaethau llesiant personol yn darparu cymorth â pherthnasoedd, llesiant, mentora a chynlluniau rhyddhau, ond nid gyda chymorth iechyd meddwl.

Mae gwasanaethau llety cymunedol haen 3 (CAS3) yn darparu llety dros dro am hyd at 84 noson i bobl sy'n gadael carchar yn ddigartref ac i'r rhai sy'n camu ymlaen o adeiladau cymeradwy, yn ogystal â chymorth i'w helpu i symud i lety sefydlog. Mae CAS3 ar gael yn llawn mewn pum rhanbarth prawf ar hyn o bryd, ac mae'n darparu llety dros dro i oddeutu 3,000 o bobl ar brawf sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar.

## 1.2. Nodau ac amcanion

Roedd yr arolygiad dilynol hwn yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

- A yw'r dulliau arwain a rheoli cyfleusterau yn ategu'r gwaith o reoli dedfrydau'n effeithiol ar drwydded ar ôl rhyddhau?
- A yw'r staff sy'n gweithio ym maes rheoli dedfrydau wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i unigolion?
- A oes ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar waith i gefnogi gwasanaeth ymatebol, wedi'i deilwra ar gyfer unigolion sy'n ddarostyngedig i reolaeth o'r ddedfryd ar drwydded ar ôl rhyddhau.
- A yw rheoli dedfrydau ar drwydded ar ôl rhyddhau yn cefnogi ymataliad unigolion yn effeithiol?
- A yw'r gwaith a wneir dan drefniadau rheoli dedfrydau ar drwydded ar ôl rhyddhau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?
- A yw'r gwasanaethau a ddarperir dan reolaeth o'r ddedfryd ar drwydded ar ôl rhyddhau yn cael eu personoli a'u cydlynu, ac a ydynt yn mynd i'r afael ag anghenion unigolion o ran ailsefydlu?

## 1.3. Amlinelliad o'r adroddiad

| Pennod | Cynnwys |
|---|---|
| 2. Arweinyddiaeth a staffio | Mae'r bennod hon yn ystyried effeithiolrwydd y cynlluniau cyflawni ailsefydlu a'r graddau y mae darparu OMiC yn ystyried ffactorau amrywiaeth. Mae'n adolygu lefelau staffio a llwythi gwaith ac effaith y rhain ar y gwaith o reoli dedfrydau ar drwydded ar ôl rhyddhau. |
| 3. Gwasanaethau | Mae'r bennod hon yn edrych ar yr anghenion ailsefydlu allweddol ynghyd â nifer, ystod ac ansawdd y gwasanaethau sydd ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny. Daw'r bennod i ben drwy ystyried effeithiolrwydd y berthynas rhwng gwasanaethau prawf a darparwyr gwasanaethau. |
| 4. Pobl ar brawf | Paratowyd y bennod hon gan ein hymgynghorwyr profiad bywyd. Mae'n ystyried y contract rhwng ymarferwyr a phobl ar brawf yn ogystal â chysondeb y berthynas rhyngddynt. |
| 5. Canlyniadau cychwynnol | Mae'r bennod hon yn ystyried y canlyniadau cychwynnol a gyflawnwyd mewn perthynas ag ymataliad, cadw pobl eraill yn ddiogel ac ailsefydlu. |

# 2. Arweinyddiaeth a staffio

Mae'r bennod hon yn ystyried effeithiolrwydd y cynlluniau ailsefydlu a'r graddau y mae darparu gwasanaethau OMiC yn ystyried ffactorau amrywiaeth. Mae'n adolygu lefelau staffio a llwythi gwaith ac effaith y rhain ar y gwaith o reoli dedfrydau ar drwydded ar ôl rhyddhau.

## 2.1. Arwain

Nid yw trefniadau llywodraethu cyfredol OMiC yn llwyr ategu ailsefydliad effeithiol.

Caiff y gwaith o roi OMiC ar waith ei oruchwylio gan uwch fforymau arwain a chyrff cydlywodraethu sy'n cael eu harwain gan gyfarwyddwyr prawf rhanbarthol a chyfarwyddwyr grŵp carchardai. Mae rhai llywodraethwyr carchardai'n mynychu cyfarfodydd yr uwch fforymau arwain, er bod y trefniadau llywodraethu wedi'u disgrifio i'r arolygwyr fel rhai sy'n canolbwyntio'n bennaf ar waith cyn rhyddhau. Mae byrddau gweithredu lleol yn goruchwylio carcharorion sy'n cael eu rhyddhau i wahanol ranbarthau prawf, yn enwedig lle maent yn ymwneud â charchardai sy'n adnodd cenedlaethol. Yn yr achosion hyn, nid oes gan fyrddau lleol ddigon o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael mewn gwahanol ranbarthau prawf i hysbysu trefniadau i gefnogi pobl o'r fath sy'n gadael carchar.

Yn gyffredinol, mae timau arwain yn gweithio'n galed i wireddu gweledigaeth OMiC ac i ymateb i'r heriau sy'n codi yn sgil y prinder staff a welir mewn llawer o ranbarthau prawf. Yn Llundain, roedd dull mwy hyblyg yn cael ei ystyried drwy ailffocysu rôl Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar y gwasanaeth prawf i gefnogi amrywiaeth ehangach o waith cyn rhyddhau. Pan oedd lefelau staffio'n is na'r rhai a ragnodir gan y model OMiC, byddai Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar yn cwblhau atgyfeiriadau i adeiladau cymeradwy, er enghraifft, a Threfniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd, yn hytrach na dibynnu ar Reolwyr Troseddwyr Cymunedol i wneud hyn.

Sefydlwyd rolau penodol o fewn uwch dimau arwain y gwasanaeth prawf, ac mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol o ran cefnogi OMiC a darparu gwasanaethau ailsefydlu. Mae'r enghreifftiau nodedig yn cynnwys y pennaeth gwasanaeth newydd yn rhanbarth Gwasanaeth Prawf Llundain sydd â chyfrifoldeb strategol dros OMiC, a'r arweinydd ailsefydlu yn rhanbarth y Gogledd-orllewin sy'n darparu arweiniad cryf o ran dod â'r gwasanaeth prawf a'r carchardai at ei gilydd.

Mae pobl ar brawf sydd ag anabledd, ac unigolion o gefndiroedd du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, wedi'u gorgynrychioli ymysg carcharorion wedi'u dedfrydu, ac mae angen mynd i'r afael â'r anghymesuredd hwn. Roedd arweinwyr yn cydnabod y gallai'r anghydbwysedd hwn adlewyrchu anawsterau ehangach yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys dedfrydu. Fodd bynnag, dywedodd un uwch arweinydd wrthym nad oeddent yn gwneud digon i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy alluogi staff i fod yn fwy hyderus wrth drafod profiadau pobl ar brawf, gan gynnwys gwahaniaethu a thriniaeth wahaniaethol.

Roedd 21 y cant o'n sampl yn dod o grwpiau du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Yn gyffredinol, roedd y gwaith asesu a chynllunio yn well gydag unigolion o grŵp ethnig gwyn. Gwelsom yn aml nad oedd profiad y sawl ar brawf fel unigolyn o grŵp du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yn cael ei ystyried na'i ddeall yn ddigon da mewn asesiadau. Cafodd rhai cynlluniau eu tynnu o asesiadau blaenorol ac nid oedd digon o gynlluniau'n mynd i'r afael yn benodol â ffactorau amrywiaeth yn ymwneud ag ethnigrwydd.

Roedd llai o wahaniaethau o ran gweithredu a chyflawni gwaith, ac roedd adolygiadau'n well ar gyfer unigolion o grwpiau du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Ar y cyfan, roedd cyflawniad y canlyniadau cychwynnol yr un fath. Bydd Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi yn edrych yn fanylach ar gydraddoldeb hiliol o fewn y gwasanaeth prawf drwy arolygiad dilynol a fydd yn cael ei gyhoeddi yn nes ymlaen yn 2023.

Mewn un uned gyflawni prawf dim ond 42 y cant o'r staff oedd mewn swydd, ac roedd rhagor o ymddiswyddiadau ac ymddeoliadau ar fin digwydd. Roedd yr uned gyflawni prawf yn cael trafferth dyrannu unrhyw achosion, a dim ond tri mis cyn rhyddhau y dyrannwyd achosion OMiC i Reolwyr Troseddwyr Cymunedol. Roedd prinder staff yn golygu bod angen ail-flaenoriaethu'r gwaith. Roedd arweinwyr hefyd yn ystyried ailgyfeirio Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar y gwasanaeth prawf mewn carchardai lleol i garchardai ailsefydlu a hyfforddi er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau cyfyngedig yn fwy effeithiol.

Roedd rhai ymarferwyr yn cael trafferth gyda llwythi gwaith, er bod llawer ohonynt yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth, gan gynnwys cael amser i ffwrdd i ddelio â phroblemau y tu allan i'r gwaith. Roedd rheolwyr yn weladwy, yn hygyrch ac yn pryderu am les staff. Er hynny, roedd rhai ymarferwyr yn dal i deimlo bod llawer o'r gwaith y gofynnwyd iddynt ei wneud yn cael ei yrru gan dargedau, yn hytrach na chanolbwyntio ar ansawdd.

## 2.2. Staffio

Dydy prinder staff a llwythi gwaith trwm ddim yn ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Dywedodd 57 y cant o'r ymarferwyr a gafodd eu cyfweld nad yw eu llwyth gwaith yn hawdd ei reoli, neu nad yw'n bosib ei reoli o gwbl. Dywedodd ymarferwyr wrthym fod llwythi gwaith trwm yn cael effaith sylweddol ar ansawdd yr ymarfer ac nad yw'n gadael llawer o amser iddynt gynllunio a chwblhau gwaith strwythuredig sy'n canolbwyntio ar droseddu. Roedd yn amlwg bod rhai dan straen ac yn sôn am weithio oriau hir er mwyn ceisio rheoli eu llwyth gwaith.

Roedd yr enghreifftiau a roddwyd i arolygwyr yn cynnwys cwnsela fel ffordd o allu aros yn y gwaith, ymddiswyddo oherwydd pwysau gwaith, a staff yn dychwelyd o absenoldeb salwch oherwydd straen dim ond i ddarganfod nad oedd eu gwaith wedi cael ei wneud. Dywedodd un uwch arweinydd wrthym ei fod yn gwbl ymwybodol o'r pwysau ar staff ond ei fod yn teimlo'n *"ddiallu"* o ystyried yr anawsterau i recriwtio digon o ymarferwyr i wneud y gwaith sy'n angenrheidiol.

Mae anawsterau sylweddol o ran cadw staff. Dywedwyd wrth yr arolygwyr bod swyddogion prawf profiadol, newydd gymhwyso a dan hyfforddiant yn gadael am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys teimlo bod y gwaith yn achosi gormod o straen, symud i swyddi sy'n talu'n well, ymddeol a chael dyrchafiad. Pan fydd swyddogion prawf cymwysedig yn symud ymlaen i rolau uwch swyddogion prawf, mae hyn yn aml yn arwain at bwysau uniongyrchol ar weithwyr rheng flaen gan fod yn rhaid ailddyrannu'r llwythi achosion i'r ymarferwyr sydd ar ôl.

Er bod datblygiad i'w groesawu ac yn angenrheidiol i unigolion a sefydliadau, yn y gwasanaeth prawf, ni fydd unigolyn sy'n cael ei ddyrchafu i swydd uwch swyddog prawf bellach yn gweithio'n uniongyrchol â phobl ar brawf. Nid yw hyn yn wir mewn gwaith cymdeithasol a chyfiawnder ieuenctid (sydd fel arfer yn cael ei gyfuno â gwasanaethau cymdeithasol plant erbyn hyn), lle ceir llwybr dyrchafiad i 'uwch ymarferydd'. Mae hon yn rôl rheolaeth ganol, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu staff ac ymarfer, lle mae rhywfaint o waith achos yn cael ei gadw.

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (2022) yn disgrifio rheolaeth effeithiol ym maes prawf fel cyfuniad o oruchwyliaeth gan reolwyr a goruchwylio ymarfer myfyriol. Yn ymarferol, dywedodd Uwch Swyddogion Prawf yn ein harolwg ar gyfer arolygiad swyddogaethau canolog y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi, 2020) nad oedd ganddynt lawer o amser i oruchwylio achosion ac ymarfer a bod eu rôl yn canolbwyntio ar faterion adnoddau dynol a rheoli perfformiad. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod goruchwyliaeth gan reolwyr yn effeithiol mewn dim ond 35 y cant o'r achosion a arolygwyd, sy'n dangos nad oedd llawer o Uwch Swyddogion Prawf yn gallu rhoi blaenoriaeth i sicrhau ansawdd wrth reoli achosion.

Mae pwyslais mawr o hyd ar recriwtio i lenwi'r nifer uchel o swyddi gwag yn y gwasanaethau prawf. Mae ymgyrchoedd teledu a recriwtio wedi'i dargedu yn cael eu hystyried er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion presennol. Roedd ymarferwyr yng Nghymru yn teimlo bod eu llwyth gwaith yn eithaf hawdd ei reoli neu'n hawdd iawn ei reoli, ac efallai bod hyn yn adlewyrchu'r cyflenwad staff iachach yn erbyn y model staffio targed rhanbarthol. Er bod modd i ymgyrchoedd recriwtio nawr ac yn y

dyfodol dalu ar ei ganfed, mae'r llwyddiant o ran recriwtio staff newydd wedi'i danseilio rhyw gymaint gan lefel uchel y staff sy'n gadael. Fel y dywedodd un ymarferydd: *"mae'r gwasanaeth prawf yn dal i dywallt dŵr i mewn i fwced sy'n llawn tyllau".*

Mae prinder swyddogion a gweinyddwyr achos yn y gwasanaeth prawf yn gohirio atgyfeiriadau i wasanaethau, gan gynnwys atgyfeiriadau tai. Ychydig iawn o dystiolaeth a welsom fod staff y gwasanaeth prawf yn cydweithio â'u cydweithwyr. Mewn rhai achosion, roedd staff adeiladau cymeradwy yn disgwyl i ymarferwyr prysur gwblhau atgyfeiriadau tai, ac roedd hynny'n arwain at oedi o ran sicrhau llety camu ymlaen.

Mae rhai prosesau atgyfeirio, er enghraifft ar gyfer llety, yn hir ac yn cymryd llawer o amser. Mae hyn yn effeithio ar yr amser sydd ar gael i ymarferwyr wneud gwaith strwythuredig gyda phobl ar brawf. Dywedodd ymarferwyr wrthym fod dogfennau atgyfeirio ar gyfer Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd, adeiladau cymeradwy a llety CAS3 yn 16 tudalen o leiaf ac yn gofyn i'r un wybodaeth gael ei llenwi dro ar ôl tro, heb sicrwydd y bydd canlyniad llwyddiannus. Rydyn ni'n deall bod y tîm canolog adeiladau cymeradwy yn bwriadu gwella'r prosesau atgyfeirio. Yn 2023, mae'n treialu ateb digidol a fydd yn lleihau dyblygu ymdrechion drwy lenwi rhywfaint o'r wybodaeth atgyfeirio sydd ei hangen yn awtomatig.

Cafodd Fframwaith Blaenoriaethu'r Gwasanaeth Prawf ei gyflwyno ddechrau 2022 i helpu rhanbarthau'r gwasanaeth prawf i addasu sut maen nhw'n darparu gwasanaethau prawf yn lleol yn ôl nifer y staff sydd ar gael. Fodd bynnag, nid yw'r Fframwaith wedi cael llawer o effaith ar achosion trwydded gan fod llai o gyfle i dynnu'n ôl o weithgareddau nag mewn gorchmynion cymunedol. Fel y dywedodd un ymarferydd wrthym: *"Nid yw Fframwaith Blaenoriaethu'r Gwasanaeth Prawf yn gwneud unrhyw wahaniaeth i mi gan fod pob un o'm hachosion OMiC yn rhai risg uchel".*

Mae rhaglen gweithlu'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi annog ardaloedd lleol i ddefnyddio dull 'un Gwasanaeth' wrth wneud penderfyniadau ynghylch adnoddau. Nid oes digon o staff mewn rhai carchardai o ran Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar y gwasanaeth prawf, tra bo gan eraill ormod o adnoddau, gyda mwy o ymarferwyr mewn carchardai nag mae'r model yn ei bennu. Mewn un rhanbarth prawf, mae holl waith cyn rhyddhau OMiC yn cael ei wneud gan ymarferydd mewn rôl benodol fel Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar y gwasanaeth prawf. Mae hyn yn arwain at waith cyn rhyddhau o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae'n cael ei drosglwyddo i'r gymuned ychydig cyn rhyddhau, sy'n golygu nad oes cyfle i feithrin perthynas rhwng y Rheolwr Troseddwyr Cymunedol a'r sawl sydd ar brawf.

## 2.3. Casgliadau a goblygiadau

Mae timau arwain yn dal wedi ymrwymo i wireddu gweledigaeth a strategaeth OMiC, ac yn deall bod gwaith cyn rhyddhau o ansawdd uchel yn cael effaith uniongyrchol ar ailsefydlu'n llwyddiannus. Mae uwch dimau arwain yn cynnwys rolau ailsefydlu strategol penodol, ac mae rhai rhanbarthau'n ystyried sut y gellir gwella'r ddarpariaeth drwy ymestyn cwmpas rôl Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar y gwasanaeth prawf mewn gwaith cyn rhyddhau er mwyn delio â phrinder Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol yn y gymuned.

Nid yw lefelau staffio a llwythi gwaith y gwasanaeth prawf ar hyn o bryd yn cefnogi'r gwaith o reoli dedfrydau ar ôl rhyddhau i safon uchel. Mae effaith prinder staff yn cynnwys achosion yn cael eu dyrannu i Reolwyr Troseddwyr Cymunedol yn hwyr; oedi wrth atgyfeirio at ddarparwyr llety sy'n gallu llesteirio symud ymlaen o adeiladau cymeradwy; a llwythi gwaith trwm sy'n atal ymarferwyr rhag cwblhau gwaith strwythuredig sy'n canolbwyntio ar droseddau gyda phobl ar brawf i gefnogi eu hymataliad ac i gadw pobl eraill yn ddiogel.

Nododd ymarferwyr ac arolygwyr nifer o ffyrdd i leihau'r llwyth gwaith presennol o bosib, a hynny drwy drafodaethau gydag arweinwyr rhanbarthol ac arweinwyr cenedlaethol y gwasanaeth prawf. Roedd y rhain yn cynnwys lleihau dyblygu mewn prosesau atgyfeirio; gwella gwaith tîm rhwng swyddogion prawf, swyddogion y gwasanaeth prawf, gweinyddwyr a staff adeiladau cymeradwy; a chyflwyno rôl uwch ymarferydd i wella'r lefelau cadw staff a lleihau ailddyrannu llwythi achosion i ymarferwyr sydd eisoes dan bwysau.

# Gwasanaethau

Mae'r bennod hon yn edrych ar yr anghenion ailsefydlu allweddol ynghyd â nifer, ystod ac ansawdd y gwasanaethau sydd ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny. Daw i ben drwy ystyried effeithiolrwydd y berthynas rhwng gwasanaethau prawf a darparwyr gwasanaethau.

## 2.4. Anghenion ailsefydlu

Mae dadansoddiad o anghenion yn cael ei gynnal ar lefel ranbarthol i lywio'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y bobl sydd ar brawf. Gwelsom fod anghysondeb rhwng y gwasanaethau sydd eu hangen a'r rhai sy'n cael eu darparu.

Mae galwadau'r rheng flaen wedi herio'r gwaith o roi'r Gwasanaethau Adsefydlu Cymunedol ar waith, ac nid oedd ymarferwyr yn gwbl ymwybodol o sut i wneud y defnydd gorau o'r gwasanaethau hyn. Mae lefel yr atgyfeiriadau ar gyfer rhai gwasanaethau, yn enwedig gwasanaethau i fenywod a llety, wedi bod yn uwch na'r disgwyl. Mae nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau eraill, fel y llwybr llesiant personol, wedi bod yn is na'r disgwyl.

Weithiau roedd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud yn rhy gyflym am eu bod yn cael eu gwneud gan y swyddog ar ddyletswydd, yn hytrach nag fel y bwriadwyd ar ôl i'r cynllun dedfrydu cychwynnol bennu dau neu dri o'r anghenion allweddol. Gwelsom rai atgyfeiriadau yn cael eu gwneud nad oeddent ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â throseddu. Dydy hyn ddim yn ddefnydd priodol o'r Gwasanaethau Adsefydlu Cymunedol gan fod modd gorfodi'r penodiadau. Dylai atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau i fenywod, er enghraifft, ganolbwyntio ar lwybrau i ffwrdd o droseddu. Mae angen i ymarferwyr ddatblygu gwell dealltwriaeth o anghenion pobl ar brawf ar bob lefel er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau cywir yn cael eu darparu i gefnogi ymataliad a chadw pobl eraill yn ddiogel.

Ar adeg yr arolygiad roedd gwelyau ar gael i ddarparu ar gyfer atgyfeiriadau addas mewn adeiladau cymeradwy. Roedd ein harchwiliad o waith cyn rhyddhau yn nodi bod atgyfeiriadau hwyr yn atal pobl rhag cael eu rhoi mewn adeiladau cymeradwy. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn rhagweld y bydd yn rhaid aros rhwng 8 a 12 wythnos am wely, er bod chwe mis yn realistig, o ystyried yr amserlen bresennol ar gyfer atgyfeiriadau. Darperir gwasanaethau ailsefydlu drwy leoliad 12 wythnos mewn adeilad cymeradwy sy'n cynnwys cymorth i symud i'r gymuned. Mae rhywfaint o hyblygrwydd i amrywio hyd y lleoliadau yn ôl yr angen. Er enghraifft, gall lleoliad mewn adeilad cymeradwy amgylchedd cynlluniedig sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol bara hyd at chwe mis. Nid dim ond ar gyfer pobl ar brawf sy'n peri risg uchel o niwed y mae lleoedd mewn adeiladau cymeradwy yn yr ystâd menywod.

## 2.5. Perthynas â darparwyr gwasanaethau

Roedd yr ymarferwyr a gyfwelwyd yn teimlo bod y prosesau atgyfeirio yn gymhleth ac, mewn rhai achosion, roedd hynny wedi arwain at oedi o ran gallu'r bobl ar brawf i gael gafael ar wasanaethau.

'Atgyfeirio a monitro' yw'r gwasanaeth digidol y gall ymarferwyr prawf ei ddefnyddio i ddod o hyd i wasanaethau addas a chyfeirio unigolion ymlaen at ymyriad. Mae darparwyr yn cofnodi ac yn rhannu gwybodaeth am wasanaethau ac am y cynnydd a wnaed gan y sawl sydd ar brawf. Roedd gan ymarferwyr safbwyntiau gwahanol ynglŷn â defnyddioldeb y broses 'atgyfeirio a monitro', a dealltwriaeth amrywiol o'i phwrpas.

Ar ôl uno'r Gwasanaeth Prawf, nid oes gan ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir fynediad uniongyrchol erbyn hyn at nDelius, sef system cofnodi'r gwasanaeth prawf. Mae hyn yn achosi rhai anawsterau gan nad yw darparwyr yn gallu cofnodi eu gwaith yn llawn gyda'r sawl sydd ar brawf. O ganlyniad, nid oes gan ymarferwyr fynediad uniongyrchol at yr wybodaeth ddiweddaraf. Ar y llaw

arall, nid yw’n hawdd i ddarparwyr gael gweld unrhyw newidiadau i’r wybodaeth am risg neu ddiogelu, er bod angen iddynt fod yn ymwybodol o’r rhain wrth weithio gyda phobl ar brawf.

Wrth atgyfeirio at ddarparwr gwasanaeth, mae ymarferwyr yn gosod lefel cymhlethdod i bennu lefel yr ymyriad sy’n ofynnol, ac yn manylu ar y canlyniadau sy’n ofynnol. Gwelsom fod gan ymarferwyr a darparwyr gwasanaethau yn aml wahanol safbwyntiau ynghylch lefel y cymhlethdod a’r canlyniadau y gellid eu cyflawni gyda’r unigolyn ar brawf. Roedd hyn yn arbennig o wir am wasanaethau i fenywod, gyda darparwyr yn meddu ar bersbectif gwahanol i Reolwyr Troseddwyr Cymunedol.

Er enghraifft, roedd y darparwr yn ystyried bod rhai atgyfeiriadau cymhlethdod isel yn gymhleth iawn gan fod y darparwr yn fwy tebygol o gymryd safbwynt y person cyfan. Roedd hyn weithiau’n seiliedig ar wybodaeth gan staff y Gwasanaethau Adsefydlu Cymunedol, a oedd yn meddu ar brofiad go iawn o’r system cyfiawnder troseddol a barn ehangach ynglŷn ag anghenion ac anawsterau’r sawl sydd ar brawf.

Roedd y cydweithio’n dda pan oedd darparwyr wedi’u cydleoli yn y swyddfeydd prawf. Mae cydleoli’n gyfle i gael cyfarfodydd tair ffordd rhwng yr ymarferydd, y darparwr a’r sawl sydd ar brawf. Mae hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o bwrpas yr ymyriad ac yn sicrhau bod gan bawb sy'n ymwneud â’r mater ddisgwyliadau clir o’r gwasanaeth sydd i’w ddarparu.

**Enghraifft o ymarfer da – Y Gogledd-orllewin**

Mae perthynas waith effeithiol rhwng unedau PDU Swydd Gaer a Seetec, gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae’n cael ei gynnal drwy gyswllt rheolaidd â rheolwyr contractau, penaethiaid unedau PDU, rheolwyr ac ymarferwyr. Mae’r cynghorydd cyflogaeth wedi’i gydleoli yn y swyddfeydd prawf. Mae hyn yn helpu’r ymarferydd i gael dealltwriaeth dda o brosesau atgyfeirio, ac yn arwain at berthynas waith agosach a chymorth wedi’i dargedu’n well ar gyfer pobl ar brawf.

**Enghraifft o ymarfer da – Llundain**

Mae’r gwaith cynefino yn swyddfeydd prawf Uxbridge a Hillingdon yn cael ei wneud ar y cyd gan y gwasanaeth prawf a Jigsaw, sef tîm amddiffyn y cyhoedd yr heddlu. Mae hyn yn sicrhau bod y gwaith o gofrestru troseddwyr rhyw yn cael ei gwblhau, ei fod yn darparu dulliau rheoli effeithiol ar y cyd i gadw pobl eraill yn ddiogel, a’i fod yn lleihau’r ansicrwydd i’r sawl sydd ar brawf.

**Enghraifft o ymarfer da – Llundain**

Treuliodd Michael ddedfryd hir o garchar am glwyfo’n fwriadol.

Fe’i cyfeiriwyd at y Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol yn y ddalfa a chwblhaodd gwrs hyfforddiant personol lefel dau. Mynegodd Michael ddymuniad i gwblhau cymhwyster lefel tri a chael swydd fel hyfforddwr personol yn y pen draw. Roedd y Rheolwr Troseddwyr Cymunedol wedi’i gyfeirio at Ymddiriedolaeth Shaw am gymorth gydag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a threfnwyd apwyntiad iddo’n brydlon ar ôl iddo gael ei ryddhau. Cynigiodd Ymddiriedolaeth Shaw i helpu Michael i ddod o hyd i gwrs a chofrestru arno. Cytunodd hefyd i dalu ei gostau teithio a’i helpu i ddod o hyd i gampfeydd lle gallai wneud gwaith ymarferol. Yn ddiweddarach, helpodd Ymddiriedolaeth Shaw i sicrhau gwaith rhan-amser i Michael mewn maes anghysylltiedig. Roedd hyn yn helpu iddo ymgysylltu, ymatal ac ailsefydlu yn y gymuned.

## 2.6. Darparu gwasanaethau

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn dangos barn yr arolygwyr ynghylch digonolrwydd y gwasanaethau a ddarperir yn erbyn yr angen a nodwyd, er mwyn mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n arwain at droseddu.

| A ddarparwyd digon o wasanaethau ar ôl rhyddhau ar gyfer y ffactorau y nodwyd eu bod yn gysylltiedig â throseddu? | Nifer | % |
|---|---|---|
| Llety | 27 | 69 |
| Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth | 14 | 52 |
| Cyllid, budd-daliadau a dyledion | 23 | 50 |
| Teulu a pherthnasoedd | 15 | 28 |
| Ffordd o fyw (gan gynnwys ffrindiau a chymdeithion) | 20 | 32 |
| Camddefnyddio alcohol | 8 | 32 |
| Camddefnyddio cyffuriau | 12 | 24 |
| Ffordd o feddwl ac ymddygiad | 22 | 33 |
| Agwedd at droseddu | 14 | 22 |

Mae'r tabl isod yn dangos barn yr arolygwyr ynghylch digonolrwydd y gwasanaethau a ddarperir yn erbyn yr angen a nodwyd, er mwyn cadw pobl eraill yn ddiogel.

| A ddarparwyd digon o wasanaethau ar gyfer y ffactorau rydych chi wedi nodi eu bod yn gysylltiedig â'r risg o niwed? | Nifer | % |
|---|---|---|
| Llety | 39 | 56 |
| Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth | 18 | 33 |
| Cyllid, budd-daliadau a dyledion | 35 | 40 |
| Teulu a pherthnasoedd | 58 | 21 |
| Ffordd o fyw (gan gynnwys ffrindiau a chymdeithion) | 59 | 31 |
| Camddefnyddio alcohol | 21 | 24 |
| Camddefnyddio cyffuriau | 41 | 20 |
| Ffordd o feddwl ac ymddygiad | 65 | 31 |
| Agwedd at droseddu | 58 | 17 |
| Pryderon cyfredol ynghylch cam-drin domestig | 17 | 18 |
| Pryderon cyfredol ynghylch diogelu plant | 31 | 42 |
| Ymddygiad sy'n seiliedig ar gasineb | 1 | 0 |

### Llety

Pan oedd angen wedi cael ei nodi, darparwyd digon o wasanaethau llety ar ôl rhyddhau i gefnogi ymataliad mewn bron i saith o bob 10 achos, ac i gadw pobl eraill yn ddiogel mewn ychydig dros hanner.

Mae gwasanaethau llety cymunedol haen 3 (CAS3) yn darparu llety dros dro am hyd at 84 noson i bobl sy'n gadael carchar yn ddigartref ac i gamu ymlaen o adeiladau cymeradwy. Gwelsom fod defnydd da yn cael ei wneud o'r ddarpariaeth CAS3 ar gyfer y bobl sy'n gadael carchar ac ar gyfer camu ymlaen o adeiladau cymeradwy, er ei fod yn anodd sicrhau llety sefydlog ar ôl i CAS3 ddod i ben. Mae lleoliad mewn adeilad cymeradwy ar ôl rhyddhau o garchar, ac wedyn mewn llety CAS3, yn rhoi hyd at chwe mis o dai â chymorth pan fydd carcharor yn cael ei ryddhau. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn amcangyfrif bod 35 i 40 y cant o bobl ar brawf yn symud i lety sefydlog ar ôl gadael llety CAS3.

| Enghraifft o ymarfer da – Dwyrain Lloegr |
|---|
| Dedfrydwyd Stephen i ddedfryd hir o garchar am gyflenwi cyffuriau dosbarth A.<br><br>Cafodd ei ryddhau o'r ddalfa heb ID, felly cymerodd bedwar mis iddo gael unrhyw fudd-daliadau. Roedd hyn yn golygu ei fod yn anodd iddo sicrhau llety camu ymlaen, a dywedodd staff yr adeilad cymeradwy ei fod wedi'i "baratoi i fethu". Roedd staff yr adeilad cymeradwy wedi dal ati i eiriol ar ei ran a chynnig cymorth dyddiol tan iddo gael budd-daliadau. Yna cafodd ei roi mewn llety â chymorth CAS3. |

Mae cael gafael ar lety ar ôl rhyddhau o'r carchar yn amrywio ledled Cymru a Lloegr. Ym Manceinion Fwyaf, er enghraifft, mae gan y gwasanaeth prawf gysylltiadau da ag awdurdodau lleol sy'n helpu i atal digartrefedd yn y rhanbarth hwn. Mewn rhanbarthau prawf eraill, gwelsom fod rhai pobl ar brawf yn cael eu rhyddhau o'r carchar neu adeiladau cymeradwy heb unman i fyw. Yn ein sampl achosion, roedd un o bob 10 carcharor a oedd yn cael ei ryddhau o'r carchar yn ddigartref, ac roedd hynny'n bennaf o ranbarthau prawf lle nad oedd darpariaeth CAS3.

Canfu'r arolygwyr nad oedd ymarferwyr a staff adeiladau cymeradwy bob amser yn gweithio'n ddigon da â'i gilydd. Roedd llwythi gwaith trwm yn golygu bod rhai ymarferwyr yn dibynnu gormod ar staff adeiladau cymeradwy. Cyfrifoldeb Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol yw atgyfeiriadau tai camu ymlaen, a gwelsom achosion lle'r oedd oedi gydag atgyfeiriadau am fod yr ymarferydd yn rhy brysur i gwblhau'r gwaith. Yn ein barn ni, gallai ymarferwyr a staff adeiladau cymeradwy oresgyn oedi o'r fath drwy gydweithio'n agosach i rannu gwybodaeth ynghylch risg a rhannu tasgau i sicrhau bod atgyfeiriadau tai'n cael eu cwblhau'n fwy prydlon.

## Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Darparwyd digon o wasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar ôl rhyddhau i gefnogi ymataliad mewn ychydig dros hanner yr achosion lle'r oedd ei angen, ac i gadw pobl eraill yn ddiogel mewn dim ond traean o'r achosion. Mewn llawer o achosion, ychydig iawn o gynnwys a welsom dan oruchwyliaeth ar wahân i apwyntiadau 'cadw mewn cysylltiad'. Ni chafodd digon o atgyfeiriadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y Gwasanaeth Adsefydlu Cymunedol eu cwblhau, a oedd yn golygu bod pobl ar brawf weithiau'n cael eu gadael i ddod o hyd i waith eu hunain.

## Cyllid, budd-daliadau a dyledion

Darparwyd digon o wasanaethau cyllid, budd-daliadau a dyledion i gefnogi ymataliad mewn dim ond hanner yr achosion lle'r oedd ei angen, ac i gadw pobl eraill yn ddiogel mewn dim ond pedwar o bob 10 achos.

Nid yw cymorth cyllid, budd-daliadau a dyledion y Gwasanaeth Adsefydlu Cymunedol ar gael yn y rhan fwyaf o ranbarthau prawf, a dim ond yn y gymuned mae gwasanaethau o'r fath yn cael eu cynnig fel arfer. Mae dau ranbarth prawf ar hyn o bryd lle darperir cymorth cyn ac ar ôl rhyddhau. Ar hyn o bryd dim ond llywodraethwyr carchardai sy'n gallu cymeradwyo ID. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad cyn rhyddhau, roedd llawer o'r carcharorion yn ein sampl achosion wedi gadael y ddalfa heb ID sy'n eu hatal rhag agor cyfrif banc ar ôl cael eu rhyddhau, na chael gafael ar ffynonellau incwm cyfreithiol fel swyddi neu fudd-daliadau.

## Teulu a pherthnasoedd

Darparwyd digon o wasanaethau teulu a pherthnasoedd i gefnogi ymataliad mewn llai na thraean o achosion, ac i gadw pobl eraill yn ddiogel mewn dim ond un o bob pump. Ni welsom ddigon o dystiolaeth o waith sy'n canolbwyntio ar droseddau, na dealltwriaeth ddigonol o sut y gall menywod ar brawf fod yn agored i'w clwyfo gan aelodau o'r teulu a rhai dynion yn eu cymunedau lleol.

## Ffordd o fyw a chymdeithion

Darparwyd digon o wasanaethau ffordd o fyw a chymdeithion i gefnogi ymataliad a chadw pobl eraill yn ddiogel mewn ychydig o dan draean yr achosion. Ychydig o dystiolaeth a welsom o ymarferwyr yn adeiladu ar gryfderau pobl ar brawf ac yn eu cefnogi i fabwysiadu ffordd o fyw rhag-gymdeithasol. Canfu'r arolygwyr dystiolaeth annigonol fod ymarferwyr yn monitro risg, er enghraifft pan oedd defnydd cynyddol unigolion o gyffuriau wedi arwain at ffyrdd anhrefnus o fyw.

## Camddefnyddio sylweddau

Darparwyd digon o wasanaethau camddefnyddio alcohol ar ôl rhyddhau i gefnogi ymataliad mewn llai na thraean o achosion, ac i gadw pobl eraill yn ddiogel mewn ychydig o dan un o bob pedwar. Yn yr un modd, roedd y gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau yn cefnogi ymataliad mewn ychydig o dan chwarter yr achosion ac yn helpu i gadw pobl eraill yn ddiogel mewn dim ond un o bob pump.

Nid yw'r rhan fwyaf o wasanaethau'n darparu cefnogaeth barhaus cyn ac ar ôl rhyddhau. Gall hyn olygu ei bod hi'n anoddach ailsefydlu a gall arwain at ailddechrau camddefnyddio sylweddau. Mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn cael eu contractio a'u comisiynu ar wahân cyn ac ar ôl rhyddhau. Mae hyn yn golygu bod llawer o garcharorion yn agored i fynd yn ôl i'w hen arferion ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar ac ailddechrau troseddu yn fuan iawn. Gallai darparu gwasanaeth cyson gan yr un darparwr cyn ac ar ôl rhyddhau ddarparu'r glud i gysylltu gwasanaethau ar gyfer yr unigolyn ar brawf, drwy alluogi mynediad ar unwaith at y driniaeth camddefnyddio sylweddau briodol ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r ddalfa.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Cafodd Ryan ei ryddhau o ddedfryd o garchar am fwrgleriaeth.

Mae wedi sefydlu patrwm o gyflawni troseddau meddiannu i ariannu camddefnyddio sylweddau, ac mae hynny wedi arwain at sawl cyfnod yn y ddalfa. Cafodd ei ryddhau i adeilad cymeradwy, ac ar ddiwrnod ei ryddhau dywedodd ei fod yn ofni llithro'n ôl i'w hen arferion. Cynghorwyd Ryan i hunanatgyfeirio er mwyn cael cymorth atal llithro'n ôl. Ar ôl iddo dreulio saith diwrnod yn y gymuned fe ddechreuodd lithro'n ôl, a chafodd ei alw yn ôl i'r ddalfa.

## Ffordd o feddwl ac ymddygiad, ac agweddau tuag at droseddu

Darparwyd digon o wasanaethau ffordd o feddwl ac ymddygiad i gefnogi ymataliad mewn dim ond traean yr achosion, ac i gadw pobl eraill yn ddiogel mewn ychydig o dan draean yr achosion. Yn yr un modd, roedd y gwasanaethau a oedd yn canolbwyntio ar agweddau tuag at droseddu yn cefnogi ymataliad mewn ychydig dros un o bob pum achos, er eu bod yn helpu i gadw pobl yn ddiogel mewn llai nag un o bob pump.

Canfu'r arolygwyr mai ychydig o ymyriadau ffurfiol a gynlluniwyd. Roedd llawer o'r ymgysylltu â phobl ar brawf yn canolbwyntio ar reoli argyfwng yn hytrach nag archwilio patrymau meddwl a'u heffaith ar ymataliad a chadw pobl eraill yn ddiogel. Dywedodd llawer o Reolwyr Troseddwyr Cymunedol nad oeddent yn gallu blaenoriaethu gwaith ar ymddygiad troseddol yn sgil y llwythi gwaith trwm. Canfu'r arolygwyr nad oedd digon o raglenni ymddygiad troseddol yn cael eu darparu i gefnogi ymataliad.

### Pryderon cyfredol ynghylch cam-drin domestig

Roedd gwasanaethau i fynd i'r afael â phryderon cyfredol ynghylch cam-drin domestig yn cael eu darparu mewn llai nag un o bob pum achos. Ni wnaed digon o waith ymyrryd i fynd i'r afael ag ymddygiad camdriniol tuag at bartneriaid ac aelodau o'r teulu, nac i fynd i'r afael â phatrymau ymddygiad cam-drin domestig. Nid oedd yr ymarferwyr yn cynnal digon o ymweliadau cartref i wirio'r wybodaeth a ddarparwyd gan bobl ar brawf.

| Enghraifft o ymarfer gwael |
|---|
| Cafodd Jack ei ddyfarnu'n euog o ddynladdiad ac roedd ganddo hanes o ymddygiad ymosodol yng nghartref y teulu cyn iddo fynd i'r carchar.<br>Gwyddid bod Jack yn ymweld â chartref y teulu. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw archwiliadau diogelu na cham-drin domestig wedi cael eu cynnal am ei fod yn cael ei ryddhau i adeilad cymeradwy i ddechrau. Gan nad oedd Jack yn byw yn y cyfeiriad, daethpwyd i'r casgliad anghywir bod y risg yn cael ei rheoli'n ddigonol. |

### Pryderon diogelu cyfredol

Darparwyd digon o wasanaethau i reoli pryderon diogelu cyfredol mewn dim ond pedwar o bob 10 achos. Nid oedd ymarferwyr yn monitro pryderon diogelu posib yn effeithiol ac yn annibynnol. Roedd rhai ymarferwyr yn dibynnu gormod ar adroddiad y sawl sydd ar brawf ynglŷn â'r trefniadau diogelu. Yn aml, nid oedd gwybodaeth ynghylch diogelu yn cael ei nodi na'i rhannu'n llawn gydag asiantaethau perthnasol, fel gwasanaethau plant. O ganlyniad, nid oedd y gwasanaethau'n gwneud digon i gadw plant yn ddiogel.

## 2.7. Casgliadau a goblygiadau

Mae gan bob rhanbarth prawf ddadansoddiad o anghenion i lywio'r gwaith o gomisiynu a thargedu gwasanaethau i ddiwallu anghenion ailsefydlu'r bobl sydd ar brawf. Gwelsom fod anghysondeb rhwng y gwasanaethau a ddarperir ac anghenion y bobl yn y sampl achosion. Er enghraifft, roedd gormod o geisiadau am wasanaethau llety, ac nid oedd digon o geisiadau am wasanaethau lles personol. Roedd effaith y 'datgysylltu' hwn yn cynnwys oedi cyn i bobl ar brawf gael cymorth i sicrhau llety.

Nid oedd nifer ac ystod gyffredinol y gwasanaethau yn diwallu anghenion ailsefydlu'r bobl yn y sampl achosion yn ddigonol. Roedd y gwasanaethau CAS3 yn eithriad i hyn ac yn gweithio'n dda i ddarparu tai â chymorth ar ôl i bobl gael eu rhyddhau o'r carchar ac fel llety camu ymlaen o adeilad cymeradwy. Nid oedd ymhell dros hanner yr holl wasanaethau eraill yn cefnogi ymataliad yn ddigonol nac yn cadw pobl eraill yn ddiogel, gan adael anghenion ailsefydlu'r bobl ar brawf heb eu diwallu i raddau helaeth.

Roedd y berthynas rhwng ymarferwyr a darparwyr gwasanaethau'n amrywio. Yn aml nid oedd prosesau atgyfeirio'n cael eu deall yn iawn, ac roedd gan staff prawf a staff darparwyr safbwyntiau gwahanol ynghylch lefel yr ymyriad sydd ei angen ar gyfer y bobl ar brawf, yn enwedig menywod. Arweiniodd hyn at oedi o ran cael gafael ar y gwasanaethau mwyaf priodol. Nid oedd gan ddarparwyr fynediad at gofnodion prawf, a oedd yn golygu nad oedd yr wybodaeth ddiweddaraf am risg a diogelu bob amser ar gael wrth iddynt ymgymryd â'r gwaith. Roedd y perthnasoedd yn gweithio orau pan oedd gwasanaethau wedi'u cydleoli yn y swyddfeydd prawf. Arweiniodd hyn at well dealltwriaeth o'r gwasanaethau a gynigir gan staff prawf, a threfniadau cydweithio mwy cynhyrchiol rhwng yr ymarferydd, y darparwr a'r sawl sydd ar brawf. Nid oedd staff adeiladau cymeradwy ac ymarferwyr prawf yn cydweithio'n ddigon da fel tîm, ac arweiniodd hynny at oedi diangen o ran atgyfeiriadau tai camu ymlaen.

# 3. Pobl ar brawf

Mae'r bennod hon wedi'i pharatoi gan ein hymgynghorwyr profiad bywyd, DWRM. Mae'n ystyried y contract rhwng ymarferwyr a phobl ar brawf yn ogystal â chysondeb y berthynas rhyngddynt.

## 3.1. Crynodeb o'r canfyddiadau

Mae'n anochel y bydd anghydbwysedd grym yn perthyn i'r berthynas rhwng y Rheolwr Troseddwyr Cymunedol a'r unigolyn ar brawf. Un ffordd o fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwnnw yw meithrin perthynas gadarn sy'n seiliedig ar barch at ei gilydd, a chreu contract gydag ymrwymiad cryf fel nad yw'r bobl ar brawf yn teimlo eu bod wedi'u dadrymuso'n llwyr. Gall fod yn ddefnyddiol fframio goruchwyliaeth y gwasanaeth prawf fel parhad y ddedfryd, sy'n galluogi'r unigolyn i gael ei ryddhau o'r ddalfa.

Nododd DWRM y themâu isod o'u trafodaethau â 53 o unigolion sy'n cael eu goruchwylio dan drwydded.

### Y contract

Mae'r contract a lofnodir ar ddechrau'r cyfnod goruchwylio gan y gwasanaeth prawf yn gosod y naws ar gyfer y berthynas gyfan, ac am ei llwyddiant neu fethiant. Fel y nodwyd yn rhan gyntaf yr arolygiad, dylai'r gwaith o gynllunio'r broses ddedfrydu, rhyddhau ac ailsefydlu gael ei wneud *gyda*'r unigolyn, nid *iddo ef/hi*. Bydd hyn yn annog yr unigolyn i gwblhau ei gynllun dedfrydu ac i wneud y newidiadau angenrheidiol i gefnogi ffordd o fyw rhag-gymdeithasol ar ôl ei ryddhau. Dyma sylfaen contract sy'n gallu sicrhau ymrwymiad ar y ddwy ochr, ac nid dim ond un i *"gael drwy ddedfryd yn y ffordd hawsaf"* neu *"i gyrraedd amodau agored cyn gynted â phosib".* Heb gred, nid oes ymrwymiad, a heb ymrwymiad, ni fydd ymataliad yn gynaliadwy.

#### Rhoi ystyr

Yn aml, mae'r cyswllt cyntaf sydd gan garcharor â'i Reolwr Troseddwyr Cymunedol yn dechrau gyda'r hyn y bydd yn ei ystyried yn newyddion drwg am yr hyn na chaniateir iddo ei wneud yn y gymuned ar ôl cael ei ryddhau. Mae hyn yn golygu bod y berthynas yn tueddu i ddechrau ar delerau anodd. Gall hyn fod yn sgil 'trosglwyddo' (o'r Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar i'r Rheolwr Troseddwyr Cymunedol) yn hwyr cyn i'r carcharor gael ei ryddhau. Mae cyfnod hwy o 'gydweithio' i alluogi cynllunio priodol ar gyfer rhyddhau, gan gynnwys trafodaethau am amodau trwydded, llety a threfniadau allweddol eraill, yn rhoi mwy o siawns o lwyddo. Byddai hyn hefyd yn cyfrannu at feithrin perthynas gadarn o gyfnod cynharach o lawer, yn hytrach nag aros tan yr adeg rhyddhau.

Roedd llawer o'r bobl y bu DWRM yn siarad â nhw yn gallu egluro o leiaf rhannau o'r model OMiC, ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o bwrpas y gwasanaeth prawf ac yn ei dderbyn. Disgrifiodd pedwar deg y cant o'r cyfranogwyr berthynas dda gyda'u Rheolwr Troseddwyr Cymunedol, er bod gan y rhan fwyaf ddisgwyliadau isel iawn o'r gefnogaeth a oedd ar gael a mynegwyd pryderon ynghylch sut mae'r llwyth gwaith yn effeithio ar y broses. Roedd y bobl a oedd i bob golwg yn gwneud yn dda yn priodoli hynny i raddau helaeth i'w penderfyniad a'u hamgylchiadau personol eu hunain yn hytrach nag i unrhyw gamau penodol ar ran y Rheolwr Troseddwyr Cymunedol. Dywedodd un cyfranogwr wrthym:

> *"Hap a damwain yw hi, dydych chi ddim yn cael dewis eich swyddog prawf, yn yr un modd nad ydy'r swyddogion prawf yn cael dewis pa garcharor maen nhw'n ei gael."*

Dull proffesiynol, nid personol, ddylai fod wrth galon y berthynas, a fydd yn caniatáu i'r gwasanaeth fod yn brofiad cyson i unigolyn, ac na fydd yn dibynnu ar ymarferydd yn 'hoffi' ei gleient – neu ddim, yn ôl y digwydd.

Dywedodd un unigolyn ei fod eisiau gwneud bywyd ei Reolwr Troseddwyr Cymunedol yn haws oherwydd bydd yn arwain at ganlyniad gwell iddo yntau:

*"Sut alla i wneud ei fywyd yn haws, fel ei fod yn fwy tebygol o ddigwydd ... mae'n golygu gweithio gyda nhw".*

Mae'r meddylfryd 'plesio pobl' hwn tuag at y Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol yn nodwedd mae DWRM wedi'i gweld yn y rhan fwyaf o'r bobl sydd wedi llwyddo i aros allan o'r ddalfa, er gwaethaf diffyg cefnogaeth gan eu Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol.

## Amodau goruchwylio

Wrth i bobl yn y carchar wneud trefniadau pontio graddol i'r gymuned, maent yn aml yn cael eu rhyddhau heb ddisgwyliadau clir o'r hyn sy'n dod nesaf.

*"Roeddwn i'n tybio y byddwn i'n cael byw gyda fy nheulu i'm helpu i godi yn ôl ar fy nhraed. Rwy'n benderfynol o ddilyn y 'ffyrdd gwell o fyw' a ddysgais yn y ddalfa [bwyta, cysgu, ymarfer corff ac ati]"*

Mae'n bosib gwneud llawer mwy cyn rhyddhau o ran paratoi carcharorion ar gyfer dychwelyd i'r gymdeithas. Dywedodd nifer o'r cyfranogwyr mai dim ond wrth adael y carchar y cawsant wybod am amodau eu trwydded, a soniodd rhai hefyd am adael y carchar heb ID na chyfrif banc. Dylid bob amser gwblhau'r trefniadau ymarferol hyn cyn i'r unigolyn gael ei ryddhau ac fe ddylai hynny fod yn rhan o'r ddarpariaeth statudol.

Dywedodd rhai cyfranogwyr a oedd eisoes mewn gwaith eu bod yn ei chael hi'n anodd trefnu eu hapwyntiadau o amgylch eu hamserlen waith. Roedd un wedi symud i weithio shifftiau hwyr er mwyn gallu gwneud hynny. Dywedodd un arall ei fod bron wedi colli ei swydd am ei fod yn ceisio ymdopi â'i amserlen waith ac apwyntiadau prawf ac oriau rhan-amser ei Reolwr Troseddwyr Cymunedol. Dywedodd y ddau ohonynt fod eu cyflogwyr yn amyneddgar iawn â'r sefyllfa.

Roedd nifer o gyfranogwyr yn teimlo bod amodau eu trwydded yn rhy llym a, hyd yn oed ar ôl wythnosau o gydymffurfio, nad oedd eu Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol yn fodlon ailystyried nac esbonio penderfyniadau. Dywedodd un ei fod wedi cael ei alw'n 'ddigywilydd' pan ofynnodd beth oedd angen iddo ei wneud i sicrhau eu bod yn adolygu amseroedd ei gyrffyw. Dywedodd ei fod yn teimlo'n bryderus ac yn rhwystredig, ond nad oedd yn gallu dweud dim rhag i hynny arwain at ragor o broblemau.

Clywodd DWRM adroddiadau cadarnhaol hefyd am ymgysylltu adeiladol:

*"Maen nhw wedi cynnig llawer o gefnogaeth i mi am fy mod yn barod i weddnewid fy mywyd. Does gen i ddim byd ond pethau da i'w ddweud amdanyn nhw ... mae ganddyn nhw ddiddordeb go iawn. O'r blaen, roeddwn i'n teimlo fel petawn i yno i roi tic mewn bocs ... y tro yma mae'n teimlo eu bod nhw'n malio amdana i."*

## Deall a derbyn

Dywedodd y cyfranogwyr wrth DWRM y byddent yn llawer mwy parod i dderbyn a chydymffurfio â'r amodau a osodwyd ar gyfer eu rhyddhau pe bai'r rhain yn cael eu hegluro'n ddigon buan yn ystod eu dedfryd fel y gellid eu hymgorffori yn y ddedfryd a'u cynlluniau rhyddhau. Y broblem, medden nhw, yw bod pobl yn y carchar yn cael eu hannog i fod yn rhagweithiol drwy gydol eu dedfrydau a dod o hyd i ffyrdd o wneud pethau drostynt eu hunain.

Dywedodd llawer o'r cyfranogwyr nad oeddent yn deall yr amodau yr oedd yn rhaid iddynt gadw atynt, a phan roedden nhw'n gofyn am esboniad a oedd yn berthnasol i'w hamgylchiadau unigol, nid oedd yr un ar gael. Dywedodd yr holl gyfranogwyr y siaradodd DWRM â nhw eu bod yn deall bod angen gosod amodau arnynt adeg rhyddhau, ac mewn rhai achosion roeddent hyd yn oed yn eu croesawu. Roedd y cyfranogwyr yn dymuno bod yn rhan o'r broses yn hytrach na chael gwybod ar ôl ei chwblhau.

Dywedodd nifer o bobl yr hoffent gael mwy o eglurder ynghylch sut i gydymffurfio ag amodau eu trwydded, a oedd, yn eu barn nhw, yn amwys ac yn agored i'w dehongli. Pwysleisiwyd eu bod yn

awyddus i gydymffurfio ac nad oeddent eisiau achosi trafferth, ond roeddent yn teimlo'n ddryslyd ynghylch yr hyn oedd yn ddisgwyliedig ganddynt.

Gwelsom fod llawer o staff yn cael trafferth deall OMiC a'r model ailsefydlu (fel rolau'r Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar, y Rheolwr Troseddwyr Cymunedol, y gweithiwr allweddol, y darparwr tai a'r tîm cyn rhyddhau), ac nid oedd yn syndod gweld nad oedd pobl yn y carchar ac ar brawf yn eu deall ychwaith.

Mae mater galw yn ôl yn arbennig o berthnasol yma. Er mai dim ond ychydig o'r bobl a oedd wedi cael eu galw'n ôl yr oedd DWRM wedi cael siarad â nhw, roedd nifer o bobl eraill wedi cael eu bwrw yn ôl a blaen rhwng y carchar a'r gymuned sawl gwaith, ac roedd pob un ohonynt wedi mynegi dryswch ynghylch amgylchiadau cael eu hanfon yn ôl i'r carchar.

Efallai fod rhywfaint o hyn yn ymwneud â'r canfyddiad bod pobl yn cael eu labelu'n rhai 'anodd eu cyrraedd' (fel y disgrifir gan rai Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol), a gellir ail-ddehongli hynny fel pobl ddim yn gallu cysylltu neu gydymffurfio â ffordd y Rheolwr Troseddwyr Cymunedol o weithio.

## Canlyniad

I rai pobl, gall amodau trwydded deimlo'n rhy gyfyngol. Fodd bynnag, clywodd DWRM hefyd gan bobl a oedd yn dweud bod modd i'r amodau hyn alluogi cynnydd.  Os oes pwrpas clir i'r amod, yna gall alluogi'r unigolyn i symud ymlaen, a bydd yn gweithredu fel ffactor amddiffynnol i'r cyhoedd ac i'r unigolyn.

Dywedodd un unigolyn ar brawf y gallai siarad â'i Reolwr Troseddwyr Cymunedol am unrhyw beth, gan gynnwys perthnasoedd personol a thrawma yn y gorffennol. Dywedodd ei fod yn ymddiried *"yn llwyr"* yn ei Reolwr Troseddwyr Cymunedol:

> *"Rwy'n siarad â hi am lawer o bethau, pethau personol ac ati. Mae hi'n fy nghadw ar y trywydd iawn."*

Fodd bynnag, clywsom hefyd gan bobl a gafodd brofiad hollol wahanol:

> *"Doedd fy Rheolwr Troseddwyr Cymunedol newydd ddim wedi gwneud i mi deimlo'n hyderus oherwydd doedd hi ddim hyd yn oed wedi darllen fy nodiadau achos yn y cyfarfod cyntaf, a doedd hi'n gwybod dim am fy ffactorau risg".*

Dywedodd yr unigolyn hwn yr hoffai i'w Reolwr Troseddwyr Cymunedol ymwneud yn agosach â'i fywyd. Roedd yn teimlo, am nad yw'n 'risg uchel', nad yw'n haeddu sylw agos.

Efallai na fydd pwrpas clir am amod trwydded yn bodoli ym meddwl unigolyn nes bydd modd ei egluro. Mae'n ddisgwyliad rhesymol i unrhyw un sy'n destun amodau sy'n cyfyngu ar ei ryddid neu ei allu i symud i fynnu rheswm sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'i sefyllfa bersonol. Mae ymarferwyr yn ceisio gosod amodau er lles diogelwch y cyhoedd; fodd bynnag, yn aml nid yw'r rhesymau'n cael eu hegluro'n llawn, a all olygu bod yr unigolyn yn gorfod ceisio gwneud synnwyr o'r amod ei hun, a gall hynny deimlo fel cosb ychwanegol.

Dywedodd un o'r cyfranogwyr fod gwahaniaethau rhwng amodau trwydded cyd-ddiffynnydd a'i amodau yntau, er bod y drosedd wedi'i rhannu. Bydd rhesymau dros amrywio'r cyfyngiadau yn yr amgylchiadau hyn ac mewn amgylchiadau tebyg, ac mae hynny'n briodol gan fod yn rhaid i'r amodau a'r cyfyngiadau gael eu teilwra i'r unigolyn. Y broblem i gyfranogwyr yw bod diffyg dealltwriaeth o'r prosesau hyn yn golygu bod y cyfyngiadau'n teimlo fel cosbau, yn enwedig pan fydd hyn yn golygu eu bod yn rhwystro dymuniadau ac anghenion eraill anghysylltiedig. Gall treulio amser yn egluro'r rhesymau dros yr amodau/cyfyngiadau hybu perthynas sy'n seiliedig ar barch, ymddiriedaeth ac, yn y pen draw, cydymffurfedd. Gall teimladau o ddicter fod yn seiliedig ar gyfathrebu gwael neu ar ddiffyg cyfathrebu.

## Perthnasoedd cyson

Yn aml iawn ni fu digon o amser i sefydlu perthynas gyson rhwng y sawl sydd ar brawf a'i Reolwr Troseddwyr Cymunedol. Dywedodd un cyfranogwr ei fod yn teimlo fel petai'n cael ei farnu ar sail un cyfarfod 10 munud gyda'i Reolwr Troseddwyr Cymunedol. Roedd un arall yn poeni y byddai'n anfanteisiol i'w sefyllfa pe bai'n gofyn am unrhyw beth neu'n cwyno. Roedd rhai'n amheus iawn o'r bygythiad o gael eu galw yn ôl, ac roedd un yn teimlo bod yn rhaid iddo ymddwyn yn wasaidd er mwyn dangos ei fod yn cydymffurfio. Roedd pobl yn aml yn dweud mai dim ond yn ceisio bod yn berson 'normal' mewn cymdeithas oedden nhw.

Un o'r prif faterion sy'n effeithio ar gysondeb yw'r newidiadau aml i ddeiliaid y swyddi Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol. Soniodd nifer wrthym eu bod wedi cael tri gwahanol Reolwr Troseddwyr Cymunedol mewn llai na phedwar mis, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt ailadrodd gwybodaeth allweddol a cheisio meithrin cysylltiadau newydd.

Ar y llaw arall, roedd cyfranogwr arall a oedd wedi cael cyngor gan ei gyd-garcharorion i ddyfalbarhau os oedd am gyflawni unrhyw beth yn dweud:

*"Mae'n rhaid dal ati i ofyn cwestiynau, bydd eich swyddog prawf yn flin ond eto'n falch eich bod yn gwneud hynny, mae'n golygu bod gennych chi ddiddordeb ... felly fe wnes i ofyn cymaint o gwestiynau ... ac mae pethau'n cael eu gwneud yn y diwedd ... mae'n broses araf ... mae'n boen go iawn, ond mae'n gweithio."*

Gwelodd DWRM hefyd, pan fydd y berthynas wedi'i nodi'n glir mewn contract a'r ddau barti'n glynu ati, y gall fod yn brofiad buddiol a chefnogol i bawb. Bydd ymarferwyr sy'n gweld cleientiaid yn ffynnu yn sgil yr ymgysylltiad hwnnw'n teimlo manteision partneriaeth gadarn a llawn ymddiriedaeth gyda'r un ymrwymiad gan bawb. Bydd pobl ar brawf hefyd yn teimlo bod y cysylltiadau hyn yn ffynonellau o gryfder a chefnogaeth, anogaeth ac atgyfnerthu cadarnhaol.

*"Mae gen i PO gwych. Mae'n gwrando arna i. Mae'r gwasanaeth prawf yn y carchar yn drychinebus. Rydw i'n un o'r rhai ffodus. Mae gen i PO sy'n gwneud ei waith yn iawn. Mae llawer o POs sy'n gwneud dim ond gwthio papur o gwmpas. Dydw i ddim yn broblem, rydw i bob amser yn adrodd yn ôl, ac yn cadw allan o drwbl."*

Yn ystod eu cyfweliadau, dywedodd 21 o bobl (40 y cant) fod ganddynt berthynas dda â'u Rheolwr Troseddwyr Cymunedol. Roeddent yn teimlo bod eu Rheolwr Troseddwyr Cymunedol yn ymatebol, yn ddibynadwy ac yn barod i helpu, hyd eithaf eu gallu. Nid oedd gan yr un o'r cyfranogwyr hyn unrhyw bryderon â'u Rheolwr Troseddwyr Cymunedol ynghylch codi materion na gwneud ceisiadau. Roedd hyn yn newid sylweddol o'r ymatebion a gafwyd wrth gyfweld pobl yn y ddalfa.

Gall meithrin perthynas sy'n gynaliadwy am gyfnod y drwydded alluogi pobl i gwblhau'r cyfnod hwnnw heb gael eu galw yn ôl na chael euogfarn eto. Fodd bynnag, gwelsom hefyd, er mwyn i ymarferwyr allu gwneud hyn, fod angen datrys y problemau cyfredol o ran adnoddau a recriwtio i'r gwasanaeth prawf.

## Ffactorau diogelu

Roedd un o'r rhai y buom yn siarad ag ef yn cydnabod bod cyfnod goruchwylio gan y gwasanaeth prawf yn rhan o'i ddedfryd o garchar.

*"Wel, dwi'n dal yn y carchar i bob pwrpas, cefais bum mlynedd yn y carchar a phum mlynedd y tu allan, a dim ond monitro maen nhw yn ystod y pum mlynedd y tu allan. Maen nhw'n eich monitro ac yn gwneud yn siŵr nad ydych chi'n camymddwyn ac yn cymryd cyffuriau, pethau fel 'na."*

Mae nodweddu cyfnod goruchwylio'r gwasanaeth prawf fel hyn yn ddefnyddiol gan ei fod yn cydnabod natur barhaus y goruchwylio ac yn cydnabod ei fod yn galluogi'r unigolyn i gael ei ryddhau o'r ddalfa cyn diwedd y ddedfryd. Gall bod yn onest am y broses hon helpu i sicrhau bod pwrpas y cyfnod prawf a chyfrifoldebau'r Rheolwr Troseddwyr Cymunedol yn cael eu derbyn yn well.

Mae tystiolaeth dda i ddangos bod cael llety sefydlog ar ôl dod allan o’r carchar yn ffactor diogelu allweddol ac yn rhywbeth mae llawer o bobl wedi siarad â DWRM amdano gan nad oedd ganddynt lety sefydlog a ddim yn gwybod sut i’w drefnu. Soniodd pobl am y gwahanol rwystrau i gael budd-daliadau a llety, rhywbeth a fu'n anodd canfod eu ffordd o’i amgylch. Mae'r meini prawf ar gyfer cael cymorth tai yn seiliedig ar lefelau risg ac anghenion cymhleth. Mae hyn yn golygu bod dyn ifanc sengl sy’n iach a heb broblemau caethiwed yn aml yn gorfod dibynnu ar gefnogaeth gan deulu a ffrindiau yn hytrach na darpariaeth statudol.

Roedd angen asesiad risg ar un cyfranogwr a gafodd gynnig llety drwy Gymdeithas Dai, ond ni chafodd ei gwblhau mewn pryd yn sgil newid Rheolwr Troseddwyr Cymunedol, a chollodd y llety. Roedd y cyfranogwr yn cydnabod mai diffyg yn y system oedd hyn yn hytrach na bai’r unigolyn. Roedd yn ymwybodol bod y ffurflen atgyfeirio’n hir ac yn cymryd llawer o amser i’w llenwi, a bod ei Reolwr Troseddwyr Cymunedol newydd yn brysur iawn a dan bwysau gyda llwyth achosion llawn. Roedd yn cydymdeimlo â’r sefyllfa ond doedd hynny ddim yn ei helpu i ddod o hyd i rywle i fyw.

Roedd bron pawb a oedd wedi siarad â DWRM am y mater hwn yn teimlo nad oedd unrhyw beth y gallai’r gwasanaeth prawf ei wneud ynghylch dod o hyd i lety iddynt neu eu cefnogi i gael hyd i lety. Rydym yn deall nad oes llety CAS3 ar gael ym mhob rhanbarth prawf, er ei fod yn effeithiol yn ôl pob tebyg o ran lleihau’r niferoedd o bobl sy'n cael eu galw yn ôl i’r carchar. Fodd bynnag, dim ond am gyfnod byr y bwriedir iddo fod (am hyd at dri mis ar ôl gadael adeilad cymeradwy) a dim ond ar gyfer y rheini sydd ag angen brys. Ar hyn o bryd, ni cheir aros mewn CA53 am fwy nag 84 diwrnod, ac mae pobl mewn ardaloedd ag amseroedd aros hir iawn am lety awdurdod lleol yn wynebu rhwystrau o ran dod o hyd i lety hirdymor. Mae’r her yn ymwneud â phryd y canfyddir bod angen o ran tai a phryd y gwneir yr atgyfeiriad, a ddylid cael ei gwblhau cyn gynted ag y bo modd cyn rhyddhau.

## 3.2. Casgliadau a goblygiadau

Gall goruchwyliaeth y gwasanaeth prawf fod yn ffordd lwyddiannus o gefnogi'r broses o ailintegreiddio i mewn i gymdeithas, ac mae’n galonogol gweld enghreifftiau o hyn yn gweithio’n dda. Lle’r oedd gan bobl ddealltwriaeth glir o bwrpas a rôl goruchwylio, gan ddeall i ddechrau bod hyn yn dal i fod yn rhan o’u dedfryd, a chanddynt ffordd o’i fframio fel ei fod yn teimlo’n dderbyniol, roeddent yn llawer mwy tebygol o ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol.

Tynnodd ein hymgynghorwyr profiad byw sylw at bwysigrwydd perthnasoedd cyson rhwng ymarferwyr prawf a’r bobl maent yn eu goruchwylio, sy’n seiliedig ar gontractau dwyffordd, er mwyn hyrwyddo ymgysylltu a chydymffurfio â goruchwylio’r drwydded yn y ffordd orau.

Pan oedd y bobl ar brawf yn teimlo bod eu Rheolwr Troseddwyr Cymunedol wedi ymgysylltu â nhw, ac wedi’u deall, gallent fod yn fwy agored yn ystod sesiynau goruchwylio’r drwydded a sicrhau gwell canlyniadau. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, nid oedd y rhesymau dros gyfyngiadau’r drwydded yn cael eu hegluro’n llawn ac roedd newidiadau aml i ddeiliaid y swyddi Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol yn eu rhwystro rhag meithrin perthnasoedd llawn ymddiriedaeth.

# 4. Canlyniadau cychwynnol

Mae’r bennod hon yn ystyried y canlyniadau cychwynnol a gyflawnwyd mewn perthynas ag ymataliad, cadw pobl eraill yn ddiogel ac ailsefydlu hyd at naw mis ar ôl rhyddhau. Archwiliwyd y rhan fwyaf o achosion (77) rhwng tri a phum mis ar ôl rhyddhau o’r ddalfa.

## 4.1. Ymataliad

Roedd yr asesiad yn canolbwyntio’n dda ar y ffactorau a oedd fwyaf cysylltiedig ag ymatal rhag troseddu eto mewn 75 y cant o’r achosion. Roedd llawer o’r asesiadau’n nodi ac yn dadansoddi meysydd ymatal allweddol ac yn aml yn cynnwys ffactorau amddiffynnol fel cysylltiadau teuluol cryf. Roedd tystiolaeth bod yr unigolyn wedi cyfrannu at yr asesiad mewn 63 y cant o’r achosion.

Roedd ymarferwyr yn ymgysylltu’n dda â phobl ar brawf, ac roedd llawer o’r rhai a gafodd eu cyfweld yn canmol eu Rheolwr Troseddwyr Cymunedol. Roedd y gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar ymgysylltu â’r sawl sydd ar brawf mewn 64 y cant o achosion, ac roedd ffocws effeithiol ar ymgysylltu ar ôl rhyddhau mewn 75 y cant o achosion. Gwelsom enghreifftiau lle’r oedd ymarferwyr wedi cadw cysylltiad rheolaidd, ac wedi gwneud defnydd synhwyrol o rybuddion rheolwyr i sicrhau cydymffurfiaeth ac ymgysylltiad.

Er bod arolygwyr wedi dod ar draws enghreifftiau da o ymgysylltu cadarnhaol, weithiau roedd amharodrwydd i ofyn cwestiynau anodd. Efallai y bydd angen i ymarferwyr darfu ar fywydau pobl, ac roedd rhai o’r staff y gwnaethom gwrdd â nhw newydd gymhwyso a heb fagu hyder eto i gael sgyrsiau mwy heriol â’r bobl yn eu llwyth achosion.

Gwelsom rywfaint o arferion da o ran gorfodaeth. Roedd yr enghreifftiau’n cynnwys unigolyn ar brawf ar dag monitro lleoliad nad oedd wedi gwefru ei fatri, ac un arall a oedd heb fynd i’w Raglen Sgiliau Meddwl yn ôl yr angen. Cyhoeddwyd llythyrau rhybuddio’r rheolwyr a chafodd y rhain effaith gadarnhaol ar ymddygiad ac ymgysylltiad dilynol yn y ddau achos.

Canfu’r arolygwyr dystiolaeth o osod trefn ar ymyriadau wedi’u cynllunio. Er enghraifft, pan oedd gan bobl ar brawf gyfnod hir o oruchwylio trwydded o’u blaenau, roedd ymarferwyr yn ymgymryd â gwaith sefydlogi gyda nhw ar ôl eu rhyddhau, a oedd yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion sylfaenol yr unigolyn am lety, mynediad at fudd-daliadau a rheoli camddefnyddio cyffuriau. Roedd hyn yn eu paratoi ar gyfer gwaith dilynol ynghylch ymddygiad troseddol.

Dywedodd llawer o bobl ar brawf eu bod wedi meithrin perthynas dda â’u Rheolwr Troseddwyr Cymunedol, er mai dim ond ar ôl iddynt gael eu rhyddhau yr oeddent wedi cwrdd â nhw mewn rhai achosion. Roeddent yn teimlo bod y Rheolwr Troseddwyr Cymunedol yn gwrando arnynt ac yn awyddus i wneud hynny, a bod eu pryder ynghylch ailsefydlu wedi’i leihau oherwydd eu bod wedi meithrin perthynas dda.

Mae’r tabl isod yn dangos barn yr arolygwyr ynghylch y graddau y bu gwelliannau yn y ffactorau sydd â'r cysylltiad agosaf â throseddu:

| A fu gwelliannau yn y ffactorau sydd â’r cysylltiad agosaf â throseddu? | Nifer | % |
|---|---|---|
| Llety | 20 | 51 |
| Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth | 14 | 52 |
| Cyllid, budd-daliadau a dyledion | 21 | 46 |
| Teulu a pherthnasoedd | 12 | 23 |
| Ffordd o fyw (gan gynnwys ffrindiau a chymdeithion) | 17 | 27 |
| Camddefnyddio alcohol | 5 | 20 |
| Camddefnyddio cyffuriau | 12 | 24 |

| | | |
|---|---|---|
| Ffordd o feddwl ac ymddygiad | 22 | 33 |
| Agwedd at droseddu | 16 | 25 |

Yn gyffredinol canfu'r arolygwyr y bu gwelliannau annigonol yn y ffactorau sydd â'r cysylltiad agosaf â throseddu. Roedd llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a chyllid, budd-daliadau a dyledion wedi gwella mewn tua hanner yr achosion. Roedd ffordd o feddwl ac ymddygiad wedi gwella mewn dim ond traean o'r achosion, yn bennaf am nad oedd unrhyw waith strwythuredig sy'n canolbwyntio ar droseddu yn cael ei wneud gan ymarferwyr. Gwnaed gwelliannau mewn teuluoedd a pherthnasoedd, ffordd o fyw, camddefnyddio cyffuriau ac agweddau at droseddu mewn un o bob pedwar achos, ac o ran camddefnyddio alcohol mewn dim ond un o bob pump.

## 4.2. Cadw pobl eraill yn ddiogel

Roedd y gwaith asesu, cynllunio ac adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel mewn dim ond hanner yr achosion – 47 y cant, 52 y cant a 51 y cant, yn y drefn honno. Nid oedd pobl ar brawf yn ymwneud yn ddigonol â chynllunio dedfrydau i reoli'r risg roeddent yn ei pheri i eraill. Yn aml, roedd diffyg chwilfrydedd proffesiynol am berthnasoedd, cyswllt â phlant neu'r amgylchiadau yn y cartref er mwyn rheoli'r risg o niwed yn briodol.

Ni chynhaliwyd archwiliadau cam-drin domestig mewn 55 y cant o'r achosion lle dylent fod wedi gwneud hynny, ac ni rannwyd gwybodaeth am ddiogelu mewn 41 y cant o'r achosion lle'r oedd angen gwneud hynny. Wynebodd ymarferwyr oedi a thrafferthion sylweddol wrth geisio cael gwybodaeth gan y gwasanaethau plant, ac mewn rhai achosion roeddent wedi rhoi'r gorau i ofyn. Er enghraifft, canfu'r arolygwyr achosion lle na chynhaliwyd archwiliadau o gwbl pan ddatgelodd y sawl ar brawf ei fod mewn perthynas newydd. Mewn enghraifft arall, caniatawyd i'r unigolyn ar brawf, a oedd yn byw mewn adeilad cymeradwy, weld ei deulu a mynd â'i nithod i'r ffair, ond ni chynhaliwyd archwiliadau diogelwch, gan gynnwys gyda rhieni'r plant.

Weithiau gall y diffyg hwn o ran rhannu gwybodaeth fod yn sgil amharodrwydd yr ymarferydd i ofyn cwestiynau anodd. Gallai fod yn fater hyfforddi a datblygu staff, o ystyried y ffaith bod llawer o staff newydd gymhwyso ac yn gymharol ddibrofiad.

Roedd gan arolygwyr bryderon bod lefelau risg yn cael eu hailddosbarthu tuag i lawr yn rhy fuan, ac nad oedd rhai dosbarthiadau risg yn adlewyrchu'r risg o niwed yn ddigonol. Dywedodd ymarferwyr wrthym y gallai hyn adlewyrchu'r pwysau i leihau llwythi gwaith drwy leihau lefel y cyswllt sydd ei angen. Roeddem hefyd wedi nodi rhai achosion risg uchel o niwed a ddylai fod yn cael eu gweld bob wythnos ond nad oedd hynny'n digwydd oherwydd pwysau'r llwythi gwaith.

Efallai fod risg wedi'i chategoreiddio'n anghywir oherwydd nad oedd gan ymarferwyr a rheolwyr ddigon o brofiad. Mae hyn yn cynnwys peidio ag edrych yn drylwyr ar achos wrth ei ddyrannu, a pheidio ag ymchwilio'n ddigonol i ymddygiad a hanes troseddu llawn yr unigolyn. Gwelsom achosion lle'r oedd pwysau o ran adnoddau wedi arwain at asesiadau arwynebol yn cael eu cynnal, ac asesiadau risg y llys ddim yn cael eu herio pan oedd angen gwneud hynny.

Roedd yr arfer o gadw pobl eraill yn ddiogel yn amrywio, sy'n cael ei ddangos yn yr achosion canlynol:

| Enghraifft o ymarfer gwael |
|---|
| Dedfrydwyd Emily i garchar am fod ym meddiant arf tanio. Roedd ei throseddau'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a'i ffordd o fyw – ond nid aethpwyd i'r afael â'r un na'r llall.<br><br>Ni chafodd atgyfeiriadau gofal cymdeithasol eu cwblhau ar gyfer y plant yr oedd hi mewn cysylltiad â nhw yn ei theulu ehangach. Nid oedd Emily'n hoffi cael ei chategoreiddio fel un sy'n peri risg uchel o niwed difrifol, a chytunodd yr ymarferydd â'r uwch swyddog prawf y gallai leihau ei lefel risg.<br>Cafodd y risg o niwed ei newid i ganolig cyn iddi dreulio digon o amser yn y gymuned i ddangos cynnydd, a heb ddilysu ei hamgylchiadau. |

| Enghraifft o ymarfer da – Llundain |
| --- |
| Cafodd John ei ddedfrydu i garchar am dorri gorchymyn atal niwed rhywiol.<br><br>Roedd wedi dangos ymddygiad ystrywgar yn y gorffennol, ac roedd gan y Rheolwr Troseddwyr Cymunedol ddealltwriaeth dda o hyn ar ôl gweithio gydag ef yn y gymuned. Bu'r Rheolwr Troseddwyr Cymunedol yn cydweithio ar yr achos hwn, gan arwain a chefnogi'r swyddog prawf dan hyfforddiant o'r cychwyn cyntaf. Roedd e-bost cydweithio yn nodi'r disgwyliadau, y pryderon ynghylch ei natur ystrywgar a phryderon am bartner John.<br>At hynny, bu'r ddau ymarferydd yn gweithio'n agos gyda'r heddlu amddiffyn y cyhoedd (Jigsaw). Roedd hyn yn sicrhau bod y swyddogion a oedd yn gweithio'n agos â John yn cyflwyno'r un negeseuon. |

Mae'r tabl isod yn dangos barn yr arolygwyr ynghylch y graddau y bu gwelliannau yn y ffactorau sy'n ymwneud â'r risg o niwed:

| A fu gwelliannau yn y ffactorau hynny sydd â'r cysylltiad agosaf â'r risg o niwed? | Nifer | % |
| --- | --- | --- |
| Llety | 17 | 44 |
| Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth | 8 | 44 |
| Cyllid, budd-daliadau a dyledion | 17 | 49 |
| Teulu a pherthnasoedd | 11 | 19 |
| Ffordd o fyw (gan gynnwys ffrindiau a chymdeithion) | 13 | 22 |
| Camddefnyddio alcohol | 4 | 19 |
| Camddefnyddio cyffuriau | 11 | 27 |
| Ffordd o feddwl ac ymddygiad | 20 | 31 |
| Agwedd at droseddu | 12 | 21 |
| Pryderon cyfredol ynghylch cam-drin domestig | 3 | 18 |
| Pryderon cyfredol ynghylch diogelu plant | 10 | 32 |
| Ymddygiad sy'n seiliedig ar gasineb | 0 | 0 |

Nid oedd digon, neu ddim gostyngiad o gwbl yn nifer y ffactorau sy'n gysylltiedig â chadw pobl eraill yn ddiogel mewn dwy ran o dair o'r achosion. Roedd y meysydd sy'n peri'r pryder mwyaf yn cynnwys cam-drin domestig, teulu a pherthnasoedd a chamddefnyddio alcohol, ac mewn sawl achos yn adlewyrchu'r diffyg rhannu gwybodaeth gyda'r heddlu a gwasanaethau plant.

## 4.3. Ailsefydlu

Er ein bod wedi gweld peth ymgysylltu da â phobl ar brawf, dim ond mewn chwech o bob 10 achos y gwelwyd cynnydd rhesymol yn cael ei wneud i gefnogi ymataliad, cadw pobl eraill yn ddiogel a galluogi pobl ar brawf i ailsefydlu yn y gymuned. Cafodd llawer o achosion eu dyrannu'n hwyr, ac nid oedd gan y Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol amser i feithrin perthynas â'r unigolyn ar brawf. Cafodd hyn effaith hefyd ar ansawdd yr asesiad, ac roedd pobl ar brawf yn aml yn cael eu hailddyrannu i Reolwr Troseddwyr Cymunedol arall yn fuan ar ôl cael eu rhyddhau.

Roedd y cyfraddau galw yn ôl yn uchel, sef 30 y cant o'r sampl achosion ar gyfartaledd. Roeddent yn amrywio o 13 y cant yng Nghaint, Surrey a Sussex i 45 y cant yng Nghymru a Dwyrain Lloegr. Roedd y rhan fwyaf o'r achosion o alw yn ôl yn digwydd oherwydd diffyg cydymffurfio ag amodau

trwydded, yn dilyn digartrefedd ac ailddechrau camddefnyddio sylweddau. Roedd rhyddhau o'r ddalfa heb unman i fyw, a diffyg parhad mewn triniaeth camddefnyddio sylweddau cyn ac ar ôl rhyddhau, hefyd yn cyfrannu at alw yn ôl.

### Canlyniadau llety

Mae'r tabl isod yn dangos statws llety unigolion ar y diwrnod rhyddhau:

| Statws llety (adeg rhyddhau) | Nifer | % |
|---|---|---|
| Sefydlog, annibynnol | 2 | 2 |
| Sefydlog, gyda ffrindiau/teulu | 21 | 23 |
| Sefydlog, hostel/llety â chymorth | 14 | 15 |
| Dros dro, gyda ffrindiau/teulu | 8 | 9 |
| Dros dro, hostel/llety â chymorth | 37 | 40 |
| Digartref | 8 | 9 |
| Anhysbys neu aneglur | 3 | 3 |

Mae'r tabl isod yn dangos statws llety unigolion adeg yr arolygiad (hyd at naw mis ar ôl rhyddhau):

| Statws llety (ar ôl rhyddhau) | Nifer | % |
|---|---|---|
| Sefydlog, annibynnol | 11 | 14 |
| Sefydlog, gyda ffrindiau/teulu | 26 | 33 |
| Sefydlog, hostel/llety â chymorth | 13 | 16 |
| Dros dro, gyda ffrindiau/teulu | 9 | 11 |
| Dros dro, hostel/llety â chymorth | 11 | 14 |
| Digartref | 3 | 4 |
| Anhysbys neu aneglur | 7 | 9 |

Dim ond pedwar o bob 10 yn y sampl achosion a oedd mewn llety sefydlog ar ôl eu rhyddhau. O'r rheini a oedd wedi aros yn y gymuned, croesawyd y gwelliant yng nghyfran y bobl ar brawf a gafodd lety sefydlog yn ystod cyfnod cychwynnol goruchwylio'r drwydded (chwech ym mhob 10). Er hynny, adeg yr arolygiad, roedd pedwar o bob 10 yn y sampl achosion yn dal i fod yn ddigartref neu mewn llety dros dro.

Llwyddodd CAS3 i sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn y pum rhanbarth lle mae'n gweithredu'n llawn: Dwyrain Lloegr; Caint, Surrey a Sussex; Manceinion Fwyaf; Gogledd-orllewin Lloegr; a Swydd Efrog a Humber. Mae'r rhan fwyaf o unigolion sy'n cael llety CAS3 yn symud i mewn yn syth o'r carchar, ond mae cyfran sylweddol yn symud i mewn i'r llety hwnnw o adeiladau cymeradwy. Amcangyfrifir bod ychydig o dan 40 y cant yn symud o dai CAS3 i lety sefydlog. Dydy'r data hwn ddim wedi'i ddilysu ar hyn o bryd.

### Canlyniadau cyflogaeth, addysg a hyfforddiant

Mae'r tabl isod yn dangos statws cyflogaeth unigolion ar y diwrnod rhyddhau:

| Statws cyflogaeth (adeg rhyddhau) | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gweithio amser llawn neu hunangyflogedig | 4 | 4 |
| Gweithio rhan-amser neu hunangyflogedig | 2 | 2 |
| Addysg neu hyfforddiant amser llawn | 0 | 0 |
| Addysg neu hyfforddiant rhan-amser | 0 | 0 |
| Di-waith | 72 | 77 |
| Ddim ar gael i weithio | 14 | 15 |
| Anhysbys neu aneglur | 1 | 1 |

Mae'r tabl isod yn dangos statws cyflogaeth unigolion adeg yr arolygiad (hyd at naw mis ar ôl rhyddhau):

| Statws cyflogaeth (ar ôl rhyddhau) | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gweithio amser llawn neu hunangyflogedig | 20 | 24 |
| Gweithio rhan-amser neu hunangyflogedig | 8 | 9 |
| Addysg neu hyfforddiant amser llawn | 1 | 1 |
| Addysg neu hyfforddiant rhan-amser | 1 | 1 |
| Di-waith | 33 | 39 |
| Ddim ar gael i weithio | 17 | 20 |
| Anhysbys neu aneglur | 5 | 6 |

Dim ond wyth y cant oedd mewn gwaith adeg eu rhyddhau o'r ddalfa. Mae hybiau cyflogaeth yn dechrau cael eu sefydlu mewn carchardai i sicrhau gwaith adeg eu rhyddhau, er nad yw manteision llawn y trefniadau hyn wedi'u gwireddu eto.

Roedd rhywfaint o welliant yng nghyfran y bobl ar brawf a gafodd waith neu hyfforddiant yn ystod cyfnod cychwynnol goruchwylio'r drwydded. Roedd un o bob tri mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant llawn amser neu ran-amser. Roedd pedwar o bob 10 yn y sampl achosion yn dal yn ddi-waith. O'r rheini nad oeddent ar gael i weithio (17), y prif resymau oedd camddefnyddio sylweddau, ac anawsterau iechyd corfforol a meddyliol, gan gynnwys gorbryder ac iselder.

## 4.4. Casgliadau a goblygiadau

Roedd yr asesiadau'n canolbwyntio'n dda ar gynnwys pobl sy'n gadael carchar yn y broses o oruchwylio'r drwydded. Roedd llawer o bobl ar brawf yn canmol eu Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol, a gwelsom enghreifftiau da o staff yn cysylltu'n rheolaidd ac yn cefnogi'r rhai sydd yn eu gofal. Fodd bynnag, nid arweiniodd hyn at welliannau digonol yn y ffactorau sydd â'r cysylltiad agosaf â llithro'n ôl ac aildroseddu – teulu a pherthnasoedd, ffordd o fyw, camddefnyddio cyffuriau, agweddau at droseddu a chamddefnyddio alcohol.

Fel y gwelsom yn ein harolygiad cyn rhyddhau, nid oedd digon o sylw'n cael ei roi i gadw pobl eraill yn ddiogel. Mewn gormod o achosion, ni chynhaliwyd archwiliadau amddiffyn plant a cham-drin domestig yr heddlu, yn aml oherwydd bod ymarferwyr wedi rhoi'r gorau i geisio cael gafael ar yr wybodaeth neu oherwydd diffyg chwilfrydedd proffesiynol am amgylchiadau personol y sawl sydd ar brawf. Roedd gennym bryderon mewn nifer o achosion nad oedd y dosbarthiad risg o niwed yn adlewyrchu'r risg yn ddigonol, naill ai i ddechrau neu yn sgil cael ei ostwng yn rhy fuan yn ystod cyfnod goruchwylio'r drwydded. O'r herwydd nid oedd llawer o bobl yn y sampl achosion yn cael eu monitro'n ddigon manwl.

Roedd dyrannu achosion yn hwyr i Reolwyr Troseddwyr Cymunedol yn tanseilio'r ymdrechion i gefnogi ailsefydlu. Roedd y cyfraddau galw yn ôl yn y sampl achosion yn uchel. Roedd y rhan fwyaf o'r achosion o alw yn ôl i'r ddalfa yn digwydd oherwydd diffyg cydymffurfio ag amodau trwydded, wedi'i sbarduno gan ddigartrefedd ac ailddechrau camddefnyddio sylweddau. Nid oedd digon o garcharorion yn cael eu rhyddhau i lety sefydlog neu gyflogaeth, addysg a hyfforddiant. Gweithiodd CAS3 yn dda o ran darparu llety dros dro a chymorth i'r rheini a oedd yn gadael carchar ac adeiladau cymeradwy yn yr ardaloedd prawf lle'r oedd ar gael. Gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran canlyniadau llety ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ar drwydded, er bod llawer yn y sampl achosion heb lety sefydlog ac yn ddi-waith. Dydy hyn ddim yn cefnogi ymataliad yn ddigonol, nac yn cadw pobl eraill yn ddiogel nac yn galluogi ailsefydlu.

# Cyfeiriadau

Cracknell, M. (2023). *Effective practice in resettlement*. Mewnwelediadau Academaidd Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi

Dominey, J. (2019). 'Probation supervision as a network of relationships: Aiming to be thick, not thin', *Probation Journal*, 66(3), pp. 283–302.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. (2022). Business strategy: shaping our future, Assets.publishing.service.gov.uk

Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi. (2020). An inspection of the central functions supporting the national probation service, justiceinspectorates.gov.uk

McNeill, F., Farrall, S., Lightowler, C., a Maruna, S. (2012). How and why people stop offending: discovering desistance, Enlighten Publications, eprints.gla.ac.uk

# Atodiad 1: Geirfa

| | |
|---|---|
| **Rhaglenni Achrededig** | Ymyriadau a rhaglenni ymddygiad troseddwyr sy'n ceisio newid y ffordd o feddwl, yr agweddau a'r ymddygiadau a allai arwain at bobl yn troseddu. |
| **Adeiladau cymeradwy** | Unedau preswyl, a arferai gael eu galw'n hostelau prawf neu fechnïaeth, sy'n gartref i gyn-droseddwyr yn y gymuned sydd angen y lefelau uchaf o leoliadau amddiffyn y cyhoedd yn y gymuned. |
| **Rheolwr Troseddwyr Cymunedol (COM)** | Mae Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol wedi'u lleoli yn y gymuned a hefyd yn cael eu galw'n swyddogion prawf. |
| **Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC)** | Cwmni Adsefydlu Cymunedol oedd y term a roddwyd i gyflenwr sector preifat o wasanaethau adsefydlu Prawf ac yn y Carchar ar gyfer troseddwyr |
| **Gwasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu (CRS)** | Rhan o system brawf newydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n cael ei chaffael gan gyfarwyddwyr prawf rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau hyblyg ac ymatebol i helpu i dorri'r cylch aildroseddu. |
| **Gwasanaethau llety cymunedol haen 3 (CAS3)** | Mae'n darparu llety dros dro am hyd at 84 noson i bobl sy'n gadael carchar yn ddigartref ac i'r rhai sy'n camu ymlaen o adeiladau cymeradwy a CAS2 (gwasanaethau cynnal llety mechnïaeth gynt), yn ogystal â chymorth i'w helpu i symud i lety sefydlog. |
| **System ddigidol carchardai (DPS)** | Cronfa ddata weithredol a ddefnyddir mewn carchardai i reoli troseddwyr. |
| **Modelau darpariaeth eithriadol (EDM)** | Y gwasanaeth carchardai a phrawf yn cyflawni cyfundrefnau lleol i ddiwallu'r adnoddau staffio sydd ar gael o ganlyniad i bandemig Covid-19. |
| **Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi** | Yr asiantaeth sy'n gyfrifol am wasanaethu'r carchardai a phrawf. Gweler y nodyn isod am y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS). |
| **Gweithiwr allweddol** | Swyddogion carchar band 3, sydd, o dan y model OMiC, yn cael eu dyrannu i hyrwyddo perthnasoedd adeiladol ac adsefydlu rhwng staff a charcharorion er mwyn meithrin ymddygiad cadarnhaol. |
| **Trefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA)** | Dyma lle mae'r gwasanaeth prawf, heddlu, carchar ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n peri risg uwch o niwed i bobl eraill. Lefel 1 yw rheolaeth asiantaeth arferol, lle gall y risgiau a berir gan y troseddwr gael eu rheoli gan yr asiantaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio neu reoli achos y troseddwr. Mae'n gofyn cael rheolaeth aml-asiantaeth weithredol ar gyfer Lefelau 2 a 3. |

| | |
|---|---|
| **Y Weinyddiaeth Gyfiawnder** | Yn gyfrifol am rannau sylweddol o’r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys llysoedd, carchardai, gwasanaethau prawf a chanolfannau ymbresenoli. |
| **National Delius (nDelius)** | Y system rheoli achosion gymeradwy a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a’r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yng Nghymru a Lloegr. |
| **Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)** | Roedd yn asiantaeth weithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a oedd yn gyfrifol am y gwasanaethau cywirol yng Nghymru a Lloegr. Cafodd ei ddisodli gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (gweler uchod). |
| **Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS)** | Gwasanaeth cenedlaethol a ddaeth i rym ym mis Mehefin 2014. Ei rôl oedd darparu gwasanaethau i lysoedd a rheoli grwpiau penodol o droseddwyr, gan gynnwys y rhai sy’n peri risg uchel neu risg uchel iawn o niwed difrifol a’r rhai sy’n destun Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd. Cafodd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ei ddisodli gan y Gwasanaeth Prawf ym mis Mehefin 2021. |
| **Systemau Asesu Troseddwyr** | System asesu troseddwyr sy'n cael ei defnyddio yng Nghymru a Lloegr gan y Gwasanaeth Prawf ar hyn o bryd i fesur risgiau ac anghenion troseddwyr dan oruchwyliaeth. |
| **Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC)** | Y fframwaith sy’n cydlynu ac yn gosod trefn ar daith unigolyn drwy’r ddalfa ac ar ôl ei ryddhau. |
| **Amgylcheddau cynlluniedig sy’n ystyriol o gyflwr seicolegol (PIPE)** | Amgylcheddau sydd wedi’u cynllunio’n benodol lle mae staff yn cael hyfforddiant ychwanegol i ddatblygu gwell dealltwriaeth seicolegol o’u gwaith. |
| **Rheolwr troseddwyr yn y carchar (POM)** | Yn gyfrifol am asesu risgiau ac anghenion y sawl sydd ag euogfarn, ac am gynllunio sut y dylai ei ddedfryd fynd rhagddi. Gall fod yn swyddog carchar neu’n swyddog prawf. |
| **Cyfarwyddwyr prawf rhanbarthol (RPD)** | Mae 12 rhanbarth prawf yng Nghymru a Lloegr, ac mae 12 cyfarwyddwr prawf rhanbarthol wedi cael eu penodi i arwain y gwasanaethau prawf yn eu rhanbarth. |
| **Y Rhaglen Sgiliau Meddwl (TSP)** | Rhaglen grŵp achrededig sydd wedi’i chynllunio i ddatblygu sgiliau meddwl troseddwr i’w helpu i gadw allan o drwbl. |
| **Drwy'r Giât** | Darparwyd gwasanaethau Drwy’r Giât gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol mewn carchardai i baratoi carcharorion ar gyfer eu rhyddhau ac ailsefydlu. Mae gwasanaethau ailsefydlu bellach yn cael eu darparu mewn rhai carchardai gan wasanaethau adsefydlu wedi’u comisiynu. |

# Atodiad 2: Methodoleg

### Gwaith maes

Cwblhawyd ein gwaith maes ar ôl rhyddhau mewn saith rhanbarth gwasanaeth prawf: Cymru; Gogledd-ddwyrain Lloegr; Dwyrain Lloegr; Gogledd-orllewin Lloegr; Manceinion Fwyaf; Caint, Surrey a Sussex; a Llundain. Gwnaethom archwilio 96 achos, gan fod pedwar o'r sampl achosion cyn rhyddhau wedi'u heithrio. Roedd un wedi'i symud i lety cadw'r Swyddfa Gartref a'r gweddill yn cael eu cadw yn y ddalfa tan ddyddiad eu dedfryd. Ym mhob un o'r achosion hyn, felly, nid oedd yr unigolyn wedi treulio unrhyw amser yn y gymuned ac nid oedd yn destun unrhyw waith ar ôl rhyddhau.

### Nodweddion sampl achosion

| Rhyw | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gwryw | 85 | 89% |
| Benyw | 9 | 9% |
| Heb ei gofnodi'n glir | 1 | 1% |

| Categori hil ac ethnigrwydd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gwyn | 73 | 78% |
| Pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig | 20 | 21% |
| Heb ei gofnodi'n glir | 1 | 1% |

| Dedfryd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Achos gyda mwy na 10 mis i'w dreulio adeg dedfrydu | 90 | 95% |
| Achos parôl penodol | 4 | 4% |
| Carcharor a ddedfrydwyd am gyfnod amhenodol | 1 | 1% |
| **Wedi'u galw'n ôl i'r carchar** | **Nifer** | **%** |
| Ar ôl 28 diwrnod | 17 | 61% |
| Rhwng 8 a 28 diwrnod a'u hail-ryddhau | 3 | 11% |
| O fewn 7 diwrnod i ryddhau | 8 | 29% |

| Gradd y rheolwr troseddwyr cymunedol presennol neu ddiwethaf | Nifer | % |
|---|---|---|
| Swyddog Prawf<br>(aelod o staff sydd â chymhwyster prawf cydnabyddedig) | 77 | 82% |
| Hyfforddai (aelod o staff sydd ar raglen hyfforddi ffurfiol ar hyn o bryd er mwn ennill cymhwyster swyddog prawf) | 6 | 6% |
| Swyddog gwasanaeth prawf<br>(aelod o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaeth,<br>heb gymhwyster swyddog prawf cydnabyddedig) | 9 | 10% |
| Arall neu heb ei gofnodi'n glir | 2 | 2% |

**Methodoleg ymgynghorwyr profiad bywyd DWRM**

Roedd y sail academaidd ar gyfer y cyfweliadau dilynol yn defnyddio model adsefydlu sawl dimensiwn McNeill (2012), gan gynnwys meysydd personol, cymdeithasol, moesol a barnwrol/cyfreithiol. Defnyddiodd DWRM y cwestiynau ymchwil isod i lywio ein dealltwriaeth o ddyfnder y berthynas rhwng yr ymarferydd a'r sawl sy'n gadael carchar, ac a oes strwythurau clir ar waith.

CWESTIYNAU YMCHWIL:

- Yn eich barn chi beth ydy rôl y gwasanaeth prawf?
- Beth oedd eich disgwyliadau chi am fywyd y tu allan i'r carchar cyn i chi gael eich rhyddhau?
  - I ba raddau mae'r disgwyliadau hyn wedi cael eu bodloni?
  - Sut mae cael eich goruchwylio wedi effeithio ar hyn?
- Am beth rydych chi'n gallu/ddim yn gallu siarad â'ch Rheolwr Troseddwyr Cymunedol?
  - Pam?
  - Sut mae'n ymateb i'ch ceisiadau?
- Sut mae eich perthynas â'ch Rheolwr Troseddwyr Cymunedol wedi effeithio ar y canlynol:
  - eich ffordd o reoli risg a/neu gyfyngiadau?
  - eich gallu i gysylltu â ffrindiau a theulu?
  - eich ymgysylltiad ag addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, neu wasanaethau eraill?
- Beth yw eich dyheadau ar gyfer y dyfodol?

**Gyda phwy wnaeth DWRM siarad?**

Roedd DWRM wedi siarad â 49 o bobl yn y gymuned, ac roedd chwech ohonynt yn fenywod. Roeddent hefyd wedi siarad â phedwar o'r bobl a oedd wedi cael eu galw yn ôl. Roedd y rhai yr oeddent wedi siarad â nhw yn gallu gwirio eu hymatebion yn erbyn cam cyntaf yr arolygiad. Mae'n bwysig nodi, gan mai dim ond â nifer fach o bobl a oedd wedi cael eu galw'n ôl y bu DWRM yn siarad â nhw, eu bod yn dyst i ryw fath o 'ragfarn goroeswyr' a bod yn rhaid ystyried hynny wrth lunio'r canfyddiadau hyn. Nododd DWRM fod y rhai yn y gymuned yn cael eu gorgynrychioli yn y sampl. Roedd y bobl hyn yn fwy tebygol o fod yn gadarnhaol am eu Rheolwr Troseddwyr Cymunedol, gan nad oeddent wedi cael eu galw yn ôl i'r carchar. Felly, penderfynwyd canolbwyntio ar yr hyn oedd yn gweithio'n dda ac adeiladu ar hynny. Roedd pob un o'r pedwar achos dan sylw wedi cael eu galw yn ôl am dorri amodau eu trwydded yn hytrach nag am drosedd newydd.

| Rhestr o achosion cymunedol | Dynion | | Menywod | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar y rhestr | 89 | 100% | 10 | 100% | 99 | 100% |
| **Wedi'u cyfweld** | **45** | **51%** | **4** | **40%** | **49** | **49%** |
| **Wedi'u galw'n ôl a'u cyfweld** | **2** | **2%** | **2** | **20%** | **4** | **4%** |
| Wedi'u galw'n ôl (dim cyfweliad) | 20 | 22% | 1 | 10% | 21 | 21% |
| Gwrthodwyd | 4 | 4% | 3 | 30% | 7 | 7% |
| Heb ateb (gan gynnwys gwrthod yn flaenorol) | 20 | 22% | - | 0% | 20 | 20% |

Cyfanswm y gyfradd cyfweld oedd 54%.

# Atodiad 3: Tablau data

**Asesiad**

| A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r unigolyn? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 55 | 65% |
| Nac ydy | 29 | 35% |

| A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu ac ymatal rhag troseddu? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 62 | 73% |
| Nac ydy | 23 | 27% |

| A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 40 | 47% |
| Nac ydy | 45 | 53% |

**Cynllunio**

| A yw'r cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r unigolyn? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 54 | 64% |
| Nac ydy | 31 | 36% |

| A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad yr unigolyn? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 57 | 68% |
| Nac ydy | 27 | 32% |

| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 43 | 52% |
| Nac ydy | 39 | 48% |

**Gweithredu a chyflawni**

| A yw'r cyfnod cyn rhyddhau yn cael ei weithredu'n effeithiol gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r unigolyn? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 64 | 75% |

| | | |
|---|---|---|
| Nac ydy | 21 | 25% |

| A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau ac ymyriadau'n cefnogi ymataliad yr unigolyn yn effeithiol? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 42 | 51% |
| Nac ydy | 41 | 49% |

| A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi cadw pobl eraill yn ddiogel yn effeithiol? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 40 | 47% |
| Nac ydy | 45 | 53% |

**Adolygu**

| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi cydymffurfedd y sawl sydd ar brawf? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 30 | 56% |
| Nac ydy | 24 | 44% |

| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y sawl sydd ar brawf? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 30 | 57% |
| Nac ydy | 23 | 43% |

| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 27 | 51% |
| Nac ydy | 26 | 49% |

**Canlyniadau**

| A yw canlyniadau cynnar yn dangos bod cynnydd rhesymol wedi cael ei wneud? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 52 | 61% |
| Nac ydy | 33 | 39% |